Atgoffodd y Cynghorydd Sivagnanam y Cyngor mai bwriad yr adroddiad a gwneud y Datganiad oedd gwneud Cynghorau'n lle agored a chroesawgar i bob cymuned ac roedd yn gobeithio y byddai pawb yn y Cyngor yn ymrwymo wrth hyn. Roedd hyn yn ymwneud â dileu rhwystrau fel bod pawb yn cael cyfle i ddod yn Cynghorydd.

Diolchodd yr Arweinydd i'r Cyngorydd Sivagnanam am ei sylwadau, gan ddweud ei fod o'r farn bod y Cyngor yn gynhwysol a bod pawb yn cael y cyfle i symud ymlaen eu hunain. Roedd y Cabinet hefyd, yn ei farn ef, yn Gabinet sy'n gytbwys o ran rhyw.

Cynhaliwyd Pleidlais wedi'i Recordio ar Benderfyniadau'r Cabinet ar 19 Gorffennaf, 2021 fel y nodir isod:

Aelodau	Canys	Yn Erbyn	Ymatal
Julie Aviet	√		
Rhiannon Birch	√		
Jonathan Bird	√		
Bronwen Brooks	√		
Lis Burnett	√		
George Carroll			√
Christine Cave			√
Janice Charles			√
Millie Collins	√		
Geoff Cox	√		
Robert Crowley			√
A.R.T Davies			√
Pamela Drake	√		
Vince Driscoll			√
Stewart Edwards			√
Ben Gray	√		
Owen Griffiths	√		
Stephen Griffiths			√
Anthony Hampton			√
Sally Hanks	√		

Nic Hodges	√		
Hunter Jarvie	√		
Gwyn John	√		
Ian Johnson	√		
Gordon Kemp			√
Peter King	√		
Kevin Mahoney		√	
Kathryn McCaffer	√		
Anne Moore	√		
Neil Moore	√		
Michael Morgan	√		
Jayne Norman	√		
Rachel Nugent-Finn			√
Andrew Parker	√		
Bob Penrose			√
Sandra Perkes	√		
Andrew Robertson			√
Leighton Rowlands			√
Ruba Sivagnanam	√		
John Thomas	√		
Neil Thomas	√		
Steffan Wiliam	√		
Margaret Wilkinson	√		
Edward Williams	√		
Mark Wilson	√		
Marguerita Wright			√

CYFANSWM	30	1	15
-----------------	-----------	----------	-----------

PENDERFYNWYD –

(1) Cymeradwyo y broses o wneud Datganiad "Cyngor Amrywiol" Bro Morgannwg fel a ganlyn:

"Bydd Cyngor Bro Morgannwg yn:

- (i) Darparu ymrwymiad clir a chyhoeddus i wella amrywiaeth;
- (ii) Dangos diwylliant agored a chroesawgar i bawb;
- (iii) Ystyried darwahanu amseroedd cyfarfodydd y Cyngor a chytuno ar gyfnodau egwyl er mwyn cefnogi Cynghorwyr sydd ag ymrwymadau eraill; a
- (iv) Nodi cynllun gweithredu o weithgarwch cyn Etholiadau Llywodraeth Leol 2022.

(2) Cymeradwyo, fel rhan o'r gwaith o gefnogi'r Cyngor i ddatblygu diwylliant cynhwysol ac un sy'n parchu hunaniaeth o ran rhywedd ar draws y sbectwm, yr egwyddor o ddiwygio Cyfansoddiad y Cyngor i adlewyrchu'r defnydd o derminoleg niwtral o ran y rhywiau.

Rheswm dros y penderfyniad

(1) Cefnogi argymhelliad Cyngor CLILC i wneud y Datganiad erbyn diwedd mis Gorffennaf 2021.

(2) Nod y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth yw hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol ac amrywiaeth mewn Cyngorau cyn etholiadau 2022 a diwygio Cyfansoddiad y Cyngor yn unol â hynny.

299 TREFNIADAU LLYWODRAETHU CYNIGION CRONFEYDD LEFELU I FYNY AC ADNEWYDDU CYMUNEDOL LLYWODRAETH Y DU (CYN) –

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C582 (7 Mehefin 2021)) fel y'i nodir yn Adran 14.14.2 (ii) o Gyfansoddiad y Cyngor.

Rheswm dros y penderfyniad

Mae'r adroddiadau am ddefnyddio'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

300 DIFFYGION BRYN A PHARHAOL – CONTRACT CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD (CYN) –

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C609 (21 Mehefin 2021)) fel y'i nodir yn Adran 14.14.2 (ii) o Gyfansoddiad y Cyngor.

Rheswm dros y penderfyniad

Mae'r adroddiadau am ddefnyddio'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

301 YMATEB YR YMGYNGHORIAD: CYNLLUN GWEITHREDU CYDRADDOLDEB HILIOL LLYWODRAETH CYMRU AR GYFER CYMRU GWRTH-HILIOL (CYN) –

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C625 (5 Gorffennaf 2021)) fel y'i nodir yn Adran 14.14.2 (ii) o Gyfansoddiad y Cyngor.

Rheswm dros y penderfyniad

Mae'r adroddiadau am ddefnyddio'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

302 AMRYWIAETH MEWN DEMOCRATIAETH (6) (CYN) –

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C635 (19 Gorffennaf 2021)) fel y'i nodir yn Adran 14.14.2 (ii) o Gyfansoddiad y Cyngor.

Rheswm dros y penderfyniad

Mae'r adroddiadau am ddefnyddio'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

303 YMESTYN Y CONTRACT RHEOLI HAMDDEN (RHAN I) (CYN) –

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C643 (19 Gorffennaf 2021)) fel y'i nodir yn Adran 14.14.2 (ii) o Gyfansoddiad y Cyngor.

Rheswm dros y penderfyniad

Mae'r adroddiadau am ddefnyddio'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

304 PARCH IEW O'R STRATEGAETH DATBLYGU AELODAU (CYN) –

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C645 (19 Gorffennaf 2021)) fel y'i nodir yn Adran 14.14.2 (ii) o Gyfansoddiad y Cyngor.

Rheswm dros y penderfyniad

Mae'r adroddiadau am ddefnyddio'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

305 RHAGLEN SEFYDLU A DATBLYGU AELODAU DRAFT 2022 (CYN) –

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C646 (19 Gorffennaf 2021)) fel y'i nodir yn Adran 14.14.2 (ii) o Gyfansoddiad y Cyngor.

Rheswm dros y penderfyniad

Mae'r adroddiadau am ddefnyddio'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

306 POLISI DATGELU (CYN) –

PENDERFYNWYD - Y dylid nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C647 (19 Gorffennaf 2021)) fel y'i nodir yn Adran 14.14.2 (ii) o Gyfansoddiad y Cyngor.

Rheswm dros y penderfyniad

Mae'r adroddiadau am ddefnyddio'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

307 YMESTYN Y CONTRACT RHEOLI HAMDDEN (RHAN II) (CYN) –

PENDERFYNWYD – Y dylid nodi'r defnydd o'r Weithdrefn Penderfyniad Brys (Cofnod Cabinet Rhif C651 (19 Gorffennaf 2021)) fel y'i nodir yn Adran 14.14.2 (ii) o Gyfansoddiad y Cyngor.

Rheswm dros y penderfyniad

Mae'r adroddiadau am ddefnyddio'r Weithdrefn Penderfyniadau Brys yn un o ofynion Cyfansoddiad y Cyngor.

308 CWESTIYNAU YN UNOL AG ADRAN 4.18 CYFANSODDIAD Y CYNGOR –

Cyflwynwyd yr ymatebion canlynol i gwestiynau Aelodau fel y'u cynhwysir yn yr agenda:

(i) **Cwestiwn gan y Cynghorydd J.E. Charles**

Er fy mod yn deall y gall staff dros dro o asiantaethau gynnig ffordd ddefnyddiol o lenwi bylchau sgiliau tymor byr yn y gweithlu, mae angen inni sicrhau nad yw'r trethdalwr yn cael gormod o faich costau diangen fel ffioedd asiantaeth. Gyda hynny mewn golwg, Faint o Staff Asiantaeth sydd gennym ar hyn o bryd yn gweithio'n uniongyrchol i'r Cyngor, ac a wnaiff yr Aelod Cabinet gadarnhau cyfanswm y gwariant ar y ffioedd asiantaeth ar gyfer y staff a gyflogid ar gontractau asiantaeth dros dro ym mlwyddyn ariannol 2019/20?

Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Yn ystod yr wythnos a ddaeth i ben ar 4 Gorffennaf, 2021, roedd cyfanswm o 217 o weithwyr asiantaeth yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r Cyngor.

Mewn perthynas â'r cwestiwn ynghylch cyfanswm y gwariant ar gyfer 2019/20, ymrwymodd y Cyngor wrth Gontract Asiantaeth Niwtral o ran Gwerthwr newydd ym mis Tachwedd 2019, gan ddefnyddio system archebu gyfrifiadurol newydd, felly nid yw darparu data ar gyfer 2019/20 yn syml.

Fodd bynnag, cyfanswm y gwariant ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/21 yw £6,868,090.

Mae hyn yn arbediad o £290,580 yn seiliedig ar gontractau blaenorol ag asiantaethau oherwydd cyfraddau'r fframwaith asiantaethau newydd.

Ategiadau

Holodd y Cynghorydd Charles am ba hyd yr oedd pob person asiantaeth wedi'i gyflogi a gofynnodd am ddadansoddiad o'r ffigurau tymor byr a hirdymor ar gyfer gweithwyr asiantaeth.

Cytunodd yr Arweinydd i gael y wybodaeth ac anfon yr un peth at holl Aelodau'r Cyngor. Fodd bynnag, dywedodd yr Arweinydd hefyd ei bod yn bwysig nodi bod rhai swyddi asiantaeth yn swyddi rhan-amser, yn ymwneud â natur y swydd dan sylw a bod yn well gan rai gweithwyr weithio ar sail asiantaeth hefyd.

(i) **Cwestiwn gan y Cynghorydd J.E. Charles**

Beth rydych yn ei wneud i sicrhau bod gan unrhyw adeiladau neu waith adnewyddu newydd ym Mro Morgannwg dechnolegau ynni gwyrdd integredig a mesurau effeithlonrwydd ynni arfer gorau?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio

Mae'r gwaith rhagorol a wnaed o fewn ystod o adrannau wedi galluogi'r Cyngor i fwrw ymlaen fel yr oedd. Roedd hyn yn cynnwys ystod o fesurau a gweithgareddau sy'n digwydd, er enghraifft Rheoli Adeiladu, Prosesau a Pholisïau Cynllunio, Hyfforddiant Staff, newidiadau i ffabrig a'r dyluniad ar gyfer adeilad ysgol gynradd carbon net sero, y cyntaf yng Nghymru.

Roedd Rhan L y Rheoliadau Adeiladu yn canolbwyntio ar warchod tanwydd a phŵer, fel y nodwyd gan Lywodraeth Cymru a ddarparodd dargedau y mae'n ofynnol i adeiladau newydd a phresennol eu cyrraedd.

Roedd gan y Cyngor nifer o bolisïau cynllunio a gynlluniwyd i wella ac annog dylunio adeiladau cynaliadwy drwy'r broses gynllunio lle bynnag yr oedd modd. Er enghraifft, cyflwynodd y gofyniad am barcio a gwefru cerbydau trydan yng Nghanolllawiau Cynllunio Atodol y Canllawiau Parcio cyn i Lywodraeth Cymru wneud hynny yn y Cynllun Datblygu Cenedlaethol newydd.

Wrth adeiladu cartrefi newydd, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull 'ffabrig yn gyntaf', sy'n golygu mai ffurf adeiladu ac elfennau strwythurol y cynllun yw'r prif egwyddorion dylunio ar gyfer cyflawni perfformiad ynni gwell. Mae'r Cyngor wedi nodi y bydd pob cartref newydd yn cael ei adeiladu gan ddefnyddio Dulliau Adeiladu Modern (MMC) ac yn defnyddio technegau Gweithgynhyrchu Oddi ar y Safle i wella perfformiad ynni ffabrig yr adeilad. Roedd systemau gwresogi a dŵr ynni effeithlon yn golygu na fyddai unrhyw gartrefi newydd yn dibynnu ar y rhwydwaith nwy o 2025 ymlaen.

Roedd Rheolwr Rhaglen Datblygu Tai'r Cyngor hefyd yn Gadeirydd Grŵp Llywio'r Prosiect Sicrhau Carbon Net Sero. Ffurfiwyd y prosiect Cyflawni Sero Net gan yr 11 cyngor sydd wedi cadw eu stoc dai (Caerffili, Caerdydd, Sir Gâr, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Ynys Môn, Sir Benfro, Powys, Abertawe, Bro Morgannwg a Wrecsam) a nifer fach o gymdeithasau tai (Cartrefi Conwy, Coastal, United Welsh).

O ran y Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, yn dilyn datganiad y Cyngor bod Argyfwng Hinsawdd, lansiodd y Cyngor brosiect i wella cynaliadwyedd fel rhan o Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif. Roedd y Cyngor wedi datblygu dyluniad ar gyfer adeilad ysgol gynradd carbon net sero (gweithredol) a oedd yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd ar gyfer Ysgol Gynradd Llancarfan yn y Rhws. Ysgol Gynradd Llancarfan fyddai un o'r adeiladau ysgol gynradd carbon net sero (gweithredol) cyntaf yng Nghymru. Ar y cyfan, roedd y Cyngor wedi llwyddo i sicrhau mwy na £2.4m o gyllid gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r gwaith o ddarparu ysgolion carbon net sero ledled y Fro.

Ategiadau

Gofynnodd y Cynghorydd Charles am sicrwydd bod cost / manteision hirdymor pontio wedi cael eu hystyried.

Ateb yr Aelod Cabinet oedd y byddai'r cynlluniau'n cydymffurfio â'r rheoliadau a'r canllawiau newydd ac awgrymodd y gallai'r Pwyllgor Craffu perthnasol ddymuno ystyried adroddiad manwl ar y mater mewn cyfarfod yn y dyfodol.

(iii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd C.A. Cave**

Yn y Fro Wledig mae gennym ffyrdd cul, sy'n aml yn llawn tyllau na chawsant eu cynllunio ar gyfer cymysgedd a maint traffig heddiw. Ers dechrau pandemig Covid 19, (a gellid dadlau ymhell cyn hynny), rydym wedi gweld cynnydd dramatig yn nifer y bobl (yn cerdded, beicio a rhedeg ac ati) ar ein ffyrdd gwledig. Mae'r math hwn o weithgaredd yn debygol o barhau i gynyddu wrth i bobl ailddarganfod manteision corfforol a seicolegol ymarfer corff yn y wlad. A yw'r Aelod Cabinet yn cytuno bod Llywodraeth Cymru wedi gwneud cam â'r cymunedau gwledig drwy beidio â chynnwys lleoliadau gwledig yn ei Hymgyngoriad diweddar ar y Cynllun Teithio Llesol?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Dywedodd yr Aelod Cabinet eu bod yn ymwybodol bod y Cynghorydd Cave wedi mynychu Seminar Teithio Llesol diweddar a hwyluswyd gan Sustrans fel rhan o ymgynghoriad Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol y Cyngor, lle esboniwyd pam nad oedd ardaloedd gwledig wedi'u cynnwys yn y broses a pham roedd y Cyngor yn edrych ar 8 ardal ddynodedig, sef Y Barri, Penarth, Y Rhws, Llanilltud Fawr, Sain Tathan, Sili, Y Bont-faen a Dinas Powys. Fel y dywedwyd yn y seminar honno, roedd Cynghorwyr yn dal i allu rhoi gwybod i'r Cyngor am faterion teithio llesol y tu allan i'r lleoliadau a gynigir, gyda'r prif ffocws o wella ardaloedd lle'r oedd yr angen newid mwyaf a'r potensial mwyaf y byddai mwy o bobl yn dewis teithio llesol. Byddai Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar y swm cyfyngedig o arian sydd ar gael i'r ardaloedd lle mae'r potensial mwyaf ar gyfer newid modol.

Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi rhoi cyfle yn ddiweddar i Awdurdodau Lleol wneud cais am arian teithio llesol ychwanegol gydag un ardal i'w hystyried yn ardal wledig. Dywedodd yr Aelod Cabinet fod swyddogion wedi gwneud cais am yr uchafswm a ganiateir o dan y cynllun ac wedi nodi nifer o brosiectau y gobeithid y caent eu hariannu. Roedd manylion llawn y ceisiadau, ac unrhyw ddyfarniadau i fod ar gael ar wefan y Cyngor maes o law.

Ategiadau

Manteisiodd y Cynghorydd Cave ar y cyfle i ofyn i'r Aelod Cabinet a fyddai'n derbyn gwahoddiad i gyfarfod â hi yn y Fro Wledig, a dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n gwneud hynny pe gallent ystyried dyddiad sy'n gyfleus i'r ddwy ochr o ystyried eu hymrwymadau.

(iv) **Cwestiwn gan y Cynghorydd C.A. Cave**

Mae Cyngor y Fro wedi annog Cynghorau Tref a Chymuned i ysgwyddo mwy o gyfrifoldeb am faterion lleol gan gynnwys cymryd perchnogaeth ar dir ac eiddo a

arferai fod yn gyfrifoldeb ar Gyngor Bro Morgannwg (Cyngor y Fro). Pa gymorth y gall y Cynghorau Tref a Chymuned ei ddisgwyl gan Gyngor y Fro pan fydd pethau'n mynd o chwith? Er enghraifft, yn ddiweddar cafwyd ymgais gan sipsiwn/teithwyr i wersylla ar dir a arferai fod yn gyfrifoldeb ar y Cyngor ond sydd bellach ym mherchnogaeth Cyngor Cymunedol. Pe bai'r ymgais wedi bod yn llwyddiannus, pa gefnogaeth y byddai'r CC wedi gallu ei chael gan Gyngor y Fro?

Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Yn flynyddol, ysgrifennai'r Adran Gwasanaethau Cyfreithiol at bob Cyngor Tref a Chymuned ym Mro Morgannwg gan roi Cytundeb Lefel Gwasanaeth iddynt i'w ystyried gan y Cyngor Tref a Chymuned perthnasol, sy'n cynnig y cyfle i gyfarwyddo'r Gwasanaethau Cyfreithiol ar faterion lle na chodai unrhyw wrthdaro buddiannau ac yn amodol ar allu i ddelio â'r cyfarwyddiadau.

Dywedodd yr Arweinydd mai dim ond un Cyngor Cymuned oedd ar hyn o bryd wedi ymrwymo i Gytundeb Lefel Gwasanaeth gydag Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer 2021/22; fodd bynnag, roedd nodyn atgoffa am y cynnig wedi'i anfon i'r 25 Cyngor Tref / Cymuned arall.

(v) Cwestiwn gan y Cynghorydd C.A. Cave

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod absenoldeb estynedig o'r ysgol a'r diffyg rhyngweithio cymdeithasol a achoswyd gan nifer o gyfyngiadau symud Covid-19 wedi effeithio'n negyddol ar iechyd meddwl plant. Beth mae Cyngor y Fro yn ei wneud i gefnogi disgyblion i ofalu am eu hiechyd meddwl?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio

Cyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr ar effaith pandemig y Coronafeirws ar iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc ym Mro Morgannwg yn y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant ar 8 Gorffennaf ac roedd wedi cael ei drafod yn helaeth. Yn ogystal â'r adroddiad, cafodd y Pwyllgor ei ffrydio'n fyw ac roedd recordiad o'r drafodaeth ar gael ar-lein.

Roedd yr Aelod Cabinet hefyd wedi treulio bore yn ddiweddar mewn trafodaeth gyda Rhwydwaith Llais Disgyblion y Cyngor ac roedd hwn yn bwnc yr oeddent yn pryderu amdano. Dywedodd yr Aelod Cabinet ei bod wedi rhoi gwybod i'r rhwydwaith bod pryderon am ddirywiad yn iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol dysgwyr wedi ers cyn y pandemig, a bod gwaith penodol i fynd i'r afael â'r pryderon hyn wedi'i wneud yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn cynnwys, er enghraifft, datblygu strategaeth y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau yn seiliedig ar Drawma Datblygiadol, Profiadau Niweidiol yn ystod Plentynod, Theori ymlyniad a niwrowyddoniaeth iechyd ac afiechyd meddwl. Roedd y cynnydd a wnaed o ran gweithredu'r strategaeth hon, ynghyd â chymorth penodol a ddarparwyd gan yr Awdurdod Lleol fel y nodir yn yr adroddiad a gyflwynwyd i'r pwyllgor craffu, wedi galluogi plant a phobl ifanc i gael cymorth priodol mewn perthynas ag iechyd cymdeithasol, emosiynol a meddyliol.

Ategiadau

Holodd y Cynghorydd Cave am unrhyw wybodaeth am faint o bobl oedd wedi manteisio ar y cynnig.

Cytunodd yr Aelod Cabinet i ymchwilio'r mater ac ymateb yn unol â hynny.

(vi) Cwestiwn gan y Cynghorydd C.A. Cave

Beth mae Cyngor y Fro yn ei wneud i helpu gofalwyr teulu pobl ag anghenion iechyd corfforol a seicolegol a fu'n ynysig oherwydd epidemig Covid 19 ac a gafodd eu gwahanu oddi wrth lawer o'r mecanweithiau cymorth arferol?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd

Roedd gwasanaethau gofalwyr Bro Morgannwg wedi parhau i roi anghenion y gofalwyr unigol wrth wraidd unrhyw asesiad o'r cymorth, ac yn ystod y cyfnod cloi roeddent wedi addasu'r ffordd yr oeddent yn asesu angen ac yn rhoi cymorth i'r unigolion.

Roedd yr holl ofalwyr a oedd yn aros neu'n cysylltu â'r gwasanaeth wedi cael eu cyfeirio at Borth Gofalwyr Caerdydd a'r Fro er mwyn cael unrhyw wybodaeth, cyngor a chymorth (GCC) yr oedd eu hangen arnynt cyn gynted â phosibl.

Yn ogystal, darparwyd cyllid gan y Fro i alluogi'r Porth i ddyfarnu Grantiau Brys, ar gyfer anghenion sy'n gysylltiedig â COVID.

Manteisiodd yr Aelod Cabinet ar y cyfle i sicrhau'r Cynghorydd Cave ymhellach fod yr holl dimau wedi cysylltu â gofalwyr hysbys i weld sut oedd eu lles ac i gynyddu unrhyw anghenion, fel y bo'n briodol.

Roedd sawl enghraifft hefyd o sut yr oedd y gwasanaethau a ddarperir wedi'u newid i ddiwallu'r angen yn ystod y pandemig a dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n hapus i ddarparu rhestr fanwl o fentrau er gwybodaeth.

Ategiadau

Holodd y Cynghorydd Cave am y nifer a oedd wedi derbyn y grantiau brys.

Nododd yr Aelod Cabinet nad oedd yn gallu darparu'r wybodaeth yn y cyfarfod ond y byddai'n anfon y wybodaeth yn ysgrifenedig at y Cynghorydd.

(vii) Cwestiwn gan y Cynghorydd C.A. Cave

Mae'n siŵr bod yr Aelod Cabinet yn ymwybodol o fudd 'Siediau Dynion'. Nid oes gennym unrhyw 'Siediau Dynion' ym Mro Morgannwg ac felly mae'n rhaid i bobl deithio y tu allan i ardal yr Awdurdod Lleol i gael mynediad at y math hwn o gymorth

seicolegol. A all yr Aelod ddweud wrthym beth y mae'n ei wneud i geisio cael 'Siediau Dynion' ym Mro Morgannwg?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd

Sefydliad cenedlaethol yw'r Men's Sheds Association sy'n ceisio darparu mannau cymunedol i ddynion gysylltu, sgwrsio a chreu gyda'r nod o leihau unigedd, annog ymgysylltiad cymdeithasol a magu hyder.

Cefnogodd y Cyngor sesiynau clwb Men's Sheds drwy Ganolfan Addysg Palmerston yn wythnosol. Cafwyd sesiwn Wythnosol Timber Shack ar ddydd Gwener 1 - 3pm a hefyd grŵp gitâr ar ddydd Gwener 1 – 3pm gyda chefnogaeth y Gyfarwyddiaeth Dysgu a Sgiliau.

Roedd yr Aelod Cabinet hefyd yn ymwybodol o nifer o grwpiau cymunedol a oedd yn diwallu anghenion dynion a fyddai'n cael cymorth drwy Men's Sheds pe bai rhagor ym Mro Morgannwg. Roedd y gweithwyr cymorth cymunedol yn y Tîm Iechyd Meddwl, hefyd yn cefnogi tîm pêl-droed Dynion fel enghraifft o rai o'r mathau o grwpiau y mae'r Cyngor yn eu cynnal.

Yn ogystal, roedd darpariaeth y trydydd sector, e.e. roedd Mind in the Vale wedi dweud bod ganddynt grŵp cymdeithasol i ddynion a grŵp gitâr i ddynion cyn y pandemig. Roedd Mind in the Vale wedi rhoi gwybod i'r Cyngor eu bod yn bwriadu aildechrau'r gweithgarwch hwn yn y dyfodol agos yn dilyn llacio'r cyfyngiadau COVID 19.

Roedd y Cyngor, drwy gyllid grant, hefyd wedi rhoi arian i GGM i'w gynnig i grwpiau cymunedol i gefnogi mentrau a oedd yn mynd i'r afael ag unigedd, a lles emosiynol. Mae hyn yn targedu'r boblogaeth hŷn yn bennaf.

Roedd swyddogion hefyd wedi bod yn trafod gyda phartneriaid lleol yn y trydydd sector, a oedd wedi nodi bod diddordeb mewn datblygu rhagor o siediau dynion yn y Fro a dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n eu cefnogi ym mha ffordd bynnag y gallai i wireddu'r fenter pe bai partner yn barod i ehangu'r gwasanaeth hwnnw ym Mro Morgannwg.

(viii) **Cwestiwn gan y Cynghorydd G. John**

A allech ddweud wrthyf pa gamau yr ystyriwyd eu cymryd i leihau'r ciwiau ar y Briffordd, i drigolion sy'n byw yn y Fro Orllewinol wrth deithio i'r Barri, yn enwedig yn ystod cyfnodau prysur? Mae'r cynnydd yn nifer y cerbydau wedi tyfu ers i nifer y datblygiadau tai gynyddu a disgwylir i 2,000 o gartrefi eraill gael eu hadeiladu yn y dyfodol agos yn ardal Sain Tathan. Bydd o leiaf 4,000+ o gerbydau eraill yn ychwanegu at yr hunllef a chyda'r diffyg trafndiaeth gyhoeddus ar gael ar adegau prysur mae'n golygu y bydd y defnydd o'r car yn cynyddu, gan adael ciwiau hir i Weycock Cross a thu hwnt. Gyda'r penderfyniad diweddar a wnaed yn yr Adran Gynllunio i adeiladu Parc Busnes yn y Rhws ac adroddwyd y byddai 3,225 o gerbydau'n defnyddio'r safle, bydd y sefyllfa'n amhosibl.

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Roedd unrhyw ddatblygiadau a oedd ar y gweill neu a gynigiwyd eu datblygu ar dir ym Mro Morgannwg yn ddarostyngedig i Gynllun Datblygu Lleol 2011 i 2026 presennol y Cyngor, a oedd yn ceisio lliniaru materion traffig cysylltiedig drwy nodi mesurau trafndiaeth gynaliadwy lleol yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru a chanllawiau arfer da cyfredol. Roedd angen i ddatblygiadau hefyd fod yn unol ag amcanion Strategaeth Drafnidiaeth Cymru.

Roedd y safleoedd datblygu a nodwyd yn y cynllun yn ceisio mynd i'r afael â thagfeydd traffig drwy sicrhau gwelliannau i deithio llesol a thrafnidiaeth gyhoeddus er mwyn annog newid dulliau teithio dewisol gan hefyd geisio gwelliannau priodol i'r coridorau priffordd strategol i fodloni gofynion y dyfodol. Roedd y Cynllun Trafnidiaeth Lleol yn cefnogi cynigion ar gyfer Metro Caerdydd a bydd y cynllun yn llywio gwaith cynllunio trafndiaeth rhanbarthol yn y dyfodol. Darparwyd manylion llawn yn nogfen Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor a oedd ar gael ar wefan y Cyngor.

Roedd yn ofynnol bod pob datblygiad sylweddol yn cynnal Asesiadau Traffig manwl ac yn comisiynu ymgynghorwyr arbenigol annibynnol i gynnal y rhain. Roedd hon yn broses gynhwysfawr a systematig a oedd yn nodi gwahanol faterion trafndiaeth sy'n ymwneud â datblygiad arfaethedig ac sy'n nodi pa fesurau fyddai'n cael eu cymryd i ddelio ag effeithiau trafndiaeth disgwylidiedig y cynllun mewn perthynas â phob dull teithio. Roedd gan y Cyngor bolisi penodol o hyrwyddo ac annog mathau cynaliadwy o drafnidiaeth i leihau'r ddibyniaeth ar geir preifat o blaid trafndiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio lle bynnag y bo'n ymarferol a thros nifer o flynyddoedd roedd wedi llwyddo i weithredu sawl milltir o droedffordd / llwybr beicio neu lwybrau Teithio Llesol a rennir sy'n cysylltu cyrchfannau allweddol ledled y Fro. Yn benodol, roedd y Cyngor wedi creu llwybr troed / llwybr beicio o ansawdd uchel ar hyd coridor Port Road tua'r gogledd o'r Barri a Gwenfô i Groes Cwrlwys i ddarparu seilwaith diogel, addas, uniongyrchol a defnyddiadwy i annog newid moddol a lleihau dibyniaeth ar / defnydd o gar preifat. Roedd cynlluniau i estyn y llwybr hwn at Faes Awyr Caerdydd a'r Fro orllewinol yn amodol ar gael cyllid.

Dywedodd yr Aelod Cabinet ymhellach gobeithio y byddai'r Aelod yn gwbl ymwybodol ac yn gefnogol i'r cynigion uchelgeisiol sy'n gysylltiedig â gwelliannau arfaethedig Metro De Cymru, gan gynnwys gwelliannau Trafnidiaeth Cymru i drafnidiaeth rheilffordd dros y blynyddoedd nesaf a fyddai, gyda gobaith, yn helpu i wella trafndiaeth gyhoeddus, darparu gwell capasiti ac felly'n helpu i ddenu pobl allan o'u ceir preifat. Egwyddorion gwella'r Metro yw na allai effaith gorddibyniaeth gymdeithasol ar geir fel prif ddull trafndiaeth barhau mwyach ac roedd dewisiadau amgen ymarferol yn hanfodol i ddyfodol lles economaidd De Cymru a'r argyfwng hinsawdd amgylcheddol presennol. Roedd y Cyngor yn llwyr gefnogi'r cynigion a'r gwelliannau hyn ac atgyfnerthai Cynllun Trafnidiaeth Lleol Bro Morgannwg weledigaeth y Cyngor ar gyfer cerddwyr, beicwyr a thrafnidiaeth gyhoeddus i annog lleihau defnyddio ceir sengl, sicrhau gwelliannau i goridorau priffyrdd strategol a chefnogi'n llawn y gwelliannau Metro ar gyfer y Brifddinas-ranbarth.

Roedd y Cyngor hefyd wedi llwyddo i gwblhau'r gwaith o adeiladu llwybr newydd ar hyd yr A4226 gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, a adnabyddir yn lleol fel y Lôn Pum Milltir. Roedd y ffordd newydd yn sythach ac yn fwy diogel na'r hen ffordd, a

oedd yn gwella amseroedd teithio rhwng yr A48 a'r Barri yn ogystal â gwella cysylltedd cyffredinol â maes awyr Caerdydd Cymru ac ardaloedd menter yn y Fro Orllewinol a fyddai'n hanfodol i economi'r ardal yn y dyfodol.

Fodd bynnag, dywedodd yr Aelod Cabinet, os oedd y gymdeithas wir am mynd i fynd i'r afael o ddifrif â thagfeydd traffig ar y ffyrdd, roedd angen iddi newid meddylfryd unigolion am bobl sy'n defnyddio eu cerbydau preifat ar gyfer teithiau p'un a oedd hyn i fynd i'r gwaith, i siopa neu ble bynnag y byddent yn mynd. Nid oedd yn opsiwn bellach dweud bod fy nhaith yn rhy anodd, mae'n rhaid i bobl wneud dewisiadau boed hynny'n eistedd mewn traffig ciwio neu'n ystyried opsiynau trafndiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio fel y bo'n briodol. Gobeithio y byddai'r gwelliannau arfaethedig i'r metro, gan gynnwys gwelliannau Trafnidiaeth Cymru i drafndiaeth rheilffyrdd dros y blynyddoedd nesaf, yn helpu i wella trafndiaeth gyhoeddus, darparu gwell capasiti ac felly helpu i ddenu pobl allan o'u ceir preifat.

Roedd Cyngor Bro Morgannwg wedi ymuno â Llywodraeth Cymru a Chynghorau eraill ledled y DU i ddatgan 'argyfwng hinsawdd' byd-eang mewn ymateb i ganfyddiadau'r Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd (IPCC). O ystyried yr 'argyfwng hinsawdd', ni allai cymdeithas ddibynnu mwyach ar greu mwy o gapasiti drwy gynyddu maint ffyrdd neu adeiladu mwy o ffyrdd ond rhaid iddynt edrych ar fodolau trafndiaeth mwy cynaliadwy a gwyrddach na ellir ond eu cyflawni drwy ddull cydweithredol gyda llywodraethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn ogystal â chymorth gan y gymuned ehangach.

Roedd yr Aelod Cabinet yn falch o nodi bod trafndiaeth gyhoeddus dda hefyd yn gwasanaethu Llanilltud Fawr gan gynnwys cyswllt rheilffordd ac anogid y gymuned leol i ddefnyddio'r opsiynau teithio hyn yn llawn wrth ystyried sut i deithio.

Ategiadau

Holodd y Cynghorydd John a fyddai'r Aelod Cabinet yn barod i lobïo Llywodraeth Cymru am orsaf reilffordd yn Silstwn a fyddai'n gwasanaethu cymuned Sain Tathan i gynorthwyo pobl i gyrraedd y gwaith.

Dywedodd yr Aelod Cabinet mewn ymateb ei fod yn codi'r materion y cyfeiriodd y Cynghorydd John atynt yn rheolaidd gyda Trafnidiaeth Cymru, fodd bynnag, y mater allweddol o ran gorsaf reilffordd oedd lle y dylid ei gosod, ond roedd yr holl opsiynau'n cael eu harchwilio.

(ix) Cwestiwn gan y Cynghorydd R. Nugent-Finn

Ar ôl siarad â'r bobl ifanc sy'n defnyddio'r parc yn aml, yr adborth yw bod y rampiau'n teimlo'n anniogel ac mewn cyflwr gwael. A oes unrhyw gynlluniau i'w atgyweirio / eu gwella?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Hamdden, Celfyddydau a Diwylliant

Gwnaed gwaith atgyweirio helaeth yn y parc sglefrio yn 2019 oherwydd bod y rhan fwyaf o fyrdau Skate-lite yn methu. Roedd y rhain yn fyrdau drud iawn a nodwyd

ar adeg eu disodli nad oedd y strwythur mewn cyflwr delfrydol a bod rhywfaint o gyrydu yn amlwg ar y ffrâm ategol. Fodd bynnag, estynnodd y gwaith a wnaed bryd hynny argaeledd y cyfleuster.

Yn anffodus, roedd y parc sglefrio bellach yn cyrraedd diwedd ei oes defnyddio ac roedd angen gwaith adnewyddu sylweddol arno. Amcangyfrifwyd y byddai hyn yn costio tua £150,000 ac nad oedd y cyllid hwn ar gael ar hyn o bryd gan y Cyngor.

Yn anffodus, ni allai'r Cyngor barhau i atgyweirio'r cyfleuster gan nad oedd hyn yn gost-effeithiol mwyach, felly, pe na bai'n gallu dod o hyd i ateb ariannu yn fuan ar gyfer ei adnewyddu, byddai angen ystyried cau'r cyfleuster am resymau iechyd a diogelwch. Ar hyn o bryd roedd swyddogion y cyngor yn gweithio drwy'r opsiynau ac roedd y Cyngor yn ceisio cadw'r cyfleuster yn weithredol cyhyd ag y gallai, ond roedd yn her yn dod yn fwyfwy anodd.

(x) **Cwestiwn gan y Cynghorydd R. Nugent-Finn**

A allwch chi roi manylion llawn y cynlluniau a'r mynediad gan gynnwys yr holl elfennau cyllid a chyllidebol mewn perthynas â'r cyrtiau tenis ym Mharc Romilly?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Roedd yr Aelod Cabinet yn ymwybodol bod cynlluniau'r Cyngor i wella'r cyflwr ac i gynyddu'r defnydd o Gyrtiau Tennis Parc Romilly wedi denu diddordeb lleol sylweddol gan ddweud ei fod yn falch o weld bod y gymuned yn gwerthfawrogi'r cyrtiau gymaint.

Fel y nodwyd yn yr adroddiad i'r Cabinet ym mis Ionawr eleni, cysylltodd Tennis Cymru â'r Cyngor a chynnig mynediad i gynllun grant unigryw a oedd ar gael iddynt i wella cyfleusterau tenis cyhoeddus. Pe na bai'r Cyngor yn defnyddio'r grant, mae'n debygol y byddai'n cael ei gynnig i ardal Cyngor arall. Roedd arian cyfatebol ar gyfer y grant ar gael oherwydd y gwnaed arbediad yn sgil adnewyddu'r llawr yn ddiweddar yng Nghanolfan Hamdden y Barri a grant pellach gan Chwaraeon Cymru fel rhan o'u mentrau adfer.

Byddai'r cyfle grant yn galluogi adnewyddu'r cyrtiau tenis yn llawn er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn gwbl weithredol ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ar gyfer y dyfodol. Byddai Tennis Cymru yn prydlesu'r cyrtiau tenis gan y Cyngor gyda'r bwriad clir o sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio gan gynifer o bobl â phosibl. Byddai hyn yn cynnwys taliad bach ar gyfer defnyddio'r cyrtiau ar adegau penodol a fyddai'n cael ei reoli drwy eu APP electronig.

Codwyd nifer o wrthwynebiadau mewn perthynas â'r cynnig codi tâl ar adegau penodol a byddai hyn yn ffocws adroddiad pellach gan y Cabinet yn ddiweddarach yn y flwyddyn cyn i unrhyw gynllun fynd yn ei flaen.

Roedd ffioedd ar waith ar hyn o bryd ar gyfer Cyrtiau Tennis Romilly, ond oherwydd eu defnydd afreolaidd a'r ffaith nad oedd nifer sefydlog o staff yn y parciau mwyach, nid oeddent wedi cael eu casglu ers peth amser.

Roedd gallu archebu cwrt yn cynnwys manteision megis cwsmeriaid yn gallu gweld beth sydd ar gael yn hytrach na chyrraedd y parc a chael eu siomi. Byddai Tennis Cymru hefyd yn sicrhau bod yr holl arian a gynhyrchir yn cael ei ail-fuddsoddi mewn Tennis yn lleol yn ogystal â chael ei ddefnyddio i gynnal y cyrtiau.

Roedd y cyrtiau am ddim i'w defnyddio ar draws y Barri yn cynnwys Millwood a Gladstone Park, a byddai'n parhau i fod am ddim i'w defnyddio fel y byddai'r cyrtiau ym Mharc Romilly ar adegau penodol, gan fod Tennis Cymru yn awyddus iawn i annog chwaraewyr tennis newydd.

Fodd bynnag, dywedodd yr Aelod Cabinet fod y cyrtiau yn Romilly mewn cyflwr gwael a heb fuddsoddiad yn wynebu dyfodol ansicr. Roedd y cynllun arfaethedig yn adeiladu ar ddull partneriaeth y Cyngor ar gyfer darpariaeth Hamdden ac roedd eisoes wedi bod yn llwyddiannus yn Llanilltud Fawr lle'r oedd y Cyngor Tref wedi ymrwmo i bartneriaeth debyg iawn gyda Tennis Cymru a oedd wedi diogelu'r Cyfleusterau Tennis yn y lleoliad hwnnw.

Pe bai'r cynllun yn mynd rhagddo, amcangyfrifwyd mai £150,000 fyddai cost gyffredinol adnewyddu'r cyrtiau gyda Tennis Cymru yn cyfrannu £45,000 a Chwaraeon Cymru yn cyfrannu £30,000. Byddai'r gweddill yn cael ei ariannu drwy arbediad a wnaed yng Nghanolfan Hamdden y Barri.

Ategiadau

Holodd y Cynghorydd Nugent-Finn am y system archebu i'w defnyddio, gyda'r Aelod Cabinet yn dweud y byddai hynny'n destun adroddiad pellach i'r Cabinet yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

(xi) Cwestiwn gan y Cynghorydd R. Nugent-Finn

Mae gan Bentref Pencoedtre 3 pharc i gyd ac mae gan Ystâd Palmerston 1 ger yr Ysgol. Mae pob parc yn cael ei ddefnyddio gan blant o'r ardal a'r cyffiniau. Maent i gyd mewn cyflwr gwael ac o'u cymharu â'r gwaith gwella ac adfywio parciau a fu ledled y Fro, maent ar ei hôl hi. A oes unrhyw gyfleoedd adfywio, gwella ar gyfer y parciau yn ward Cadoc?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Roedd yr holl arian o fewn y cyllidebau perthnasol wedi'i neilltuo ar hyn o bryd ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol ac nid oedd cyllid Adran 106 ar gael yn y meysydd hyn. Fodd bynnag, pe bai unrhyw danwariant ar gyllidebau'r offer chwarae, byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i ychwanegu offer chwarae neu feinciau at barciau'r Cyngor yn y lleoliadau hyn. Yn benodol, roedd swyddogion wedi bod yn cysylltu â thrigolion Palmerston yn ddiweddar ynglŷn â'u cyfleusterau mewn parciau ac roedd nifer o opsiynau wedi'u trafod gan gynnwys ceisio cyllid gan y sector preifat.

Cynhaliwyd adroddiad diogelwch annibynnol yn ddiweddar ar bob man chwarae a byddai unrhyw argymhellion o'r adroddiad hwnnw'n cael eu gweithredu i sicrhau bod

yr holl gyfleusterau'n parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio. Byddai'r adroddiad hefyd yn llywio cynlluniau ar gyfer adnewyddu ardaloedd chwarae yn y dyfodol a byddai'n cael ei ddefnyddio i flaenoriaethu unrhyw arian cyfalaf a allai fod ar gael yn y dyfodol.

Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n dymuno bod mewn sefyllfa i adnewyddu'r holl ardaloedd chwarae hŷn ond yn anffodus prin oedd yr arian a'r galw mawr am dros 100 o fannau chwarae a pharciau sglefrio. Dywedodd y Byddai'r Cyngor yn parhau i flaenoriaethu unrhyw gyllid a oedd ganddo ar yr ardaloedd sydd â'r offer a'r cyfleusterau gwaethaf yn seiliedig ar y dystiolaeth o adroddiadau arolygu diogelwch.

Ategiadau

Gofynnodd y Cynghorydd Nugent-Finn i'r Cyngor wneud ymdrechion i wneud parciau'n gynhwysol i blant anabl.

Nododd yr Aelod Cabinet ei fod yn cytuno.

(xii) Cwestiwn gan y Cynghorydd R. Nugent-Finn

Ar hyn o bryd maent yn sefyll o fewn ffin y parc a'r ardal chwarae; nid ydynt wedi cael eu defnyddio ers cryn amser. Er bod ganddynt gelf gymunedol a phaentiadau ar y tu allan, mae'r trigolion yn awyddus i gael gwybod a os oes unrhyw gynlluniau ar eu cyfer a beth.

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Ar hyn o bryd, nid oedd unrhyw gynlluniau ar gyfer yr adeilad a oedd wedi bod ar agor fel toiledau gweithredol flynyddoedd lawer o'r blaen, i wasanaethu pwll padlo'r plant yn yr un lleoliad yn bennaf. Ar hyn o bryd, nid oedd y Cyngor yn gweld angen toiledau nawr a gan nad oedd yr adeilad yn rhwymedigaeth fawr i'r Cyngor ar hyn o bryd, nid oedd yn mynd ati i chwilio am ddefnyddiau eraill ar ei gyfer na'i waredu ar hyn o bryd.

Ategiadau

Holodd y Cynghorydd Nugent-Finn a ymgynghorwyd â thrigolion lleol.

Dywedodd yr Aelod Cabinet nad oeddent wedi gwneud hynny.

(xiii) Cwestiwn gan y Cynghorydd R. Nugent-Finn

Yn dilyn fy nghwestiwn yn y Cyngor Llawn diwethaf, mae'r camau yn y Lloches Ddwyreiniol yn Ynys y Barri yn dal heb eu hatgyweirio. Fy mhryderon fel y'u cyflwynwyd o'r blaen, yw'r risgiau sydd ynghlwm i'r cyhoedd sy'n defnyddio'r grisiau gan fod y man troed ar goll o nifer o'r grisiau. A oes gennym ddyddiad targed ar gyfer atgyweiriadau? Hefyd, mae nifer o'r goleuadau lefel isel yn dal heb eu atgyweirio, a oes gennym ddyddiad targed ar gyfer yr atgyweiriadau hyn?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Roedd y ramp a arweiniodd at y Lloches Ddwyreiniol wedi'i drwsio ym mis Ionawr 2021 ac wedi ailagor ar gyfer mynediad i'r cyhoedd. Roedd yr Aelod Cabinet yn ymwybodol bod nifer o'r manau troed plastig caled ar ymylon y grisiau ar goll yn ardal y Gysgodfan Ddwyreiniol ac er nad oedd hyn yn ddelfrydol, nid oedd yn ymddangos eu bod yn gwella lefel y perfformiad gwrthlithro a gynigir gan y grisiau ac felly ni ystyrid ei fod yn fater diogelwch sylweddol nac yn berygl baglu ar hyn o bryd.

Awgrymodd ymchwiliadau a gynhaliwyd nad oedd disodli'r manau troed plastig caled ei hunain yn benderfyniad dichonol nac ymarferol gan ei bod yn ymddangos eu bod yn dod ar wahân yn rhy hawdd ac felly y byddent yn cynrychioli diffyg parhaus ac ni fyddai hyn yn datrys y broblem. Felly, ymchwiliwyd ateb mwy parhaol ac ystyriwyd gwahanol gynhyrchion i sicrhau bod unrhyw gam newydd yn ôl-ffitio yn y dyfodol yn cynnig ateb cadarn a dibynadwy i'r sefyllfa bresennol. Y gobaiith oedd y gellid cytuno ar ateb a'i weithredu yn ddiweddarach yn y flwyddyn galendr.

Nid oedd yn bosibl rhaglennu'r gwaith sydd ei angen ar y goleuadau lefel isel cyn dechrau tymor yr haf ond y bwriad oedd y byddai'r rhain yn cael sylw yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

(xiv) Cwestiwn gan y Cynghorydd R. Nugent-Finn

Dydy'r rhan fwyaf o'r cyfleusterau golchi dwylo yn y toiledau hyn ddim yn gweithio. Rwyf wedi siarad â'r rhai a oedd yn mynychu'r toiledau a dywedwyd arnaf fod y cyfleusterau golchi dwylo awtomatig wedi bod yn broblemus o'r dechrau, gyda materion amrywiol fel gorboethi ac yn peri iddynt fynd ar dân ac roedd cyfnod aros hir ar gyfer rhannau a gwasanaethu. Mae'r dŵr yn y 2 gyfleuster sy'n weddill hefyd yn sylweddol boeth, sy'n bryder iechyd a diogelwch.

A allwch roi gwybod imi am gynlluniau atgyweirio, elfennau diogelwch a threfniadau amgen i'r cyhoedd gael mynediad i'r toiledau ar gyfer cyfleusterau golchi dwylo hanfodol wrth i ni nesáu at dymor prysur yr haf?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Atebodd yr Aelod Cabinet ei fod yn ymwybodol o'r problemau gyda'r cyfleusterau golchi dwylo yn Ynys y Barri. Roedd y math o unedau'n rhagorol pan oeddent yn gweithio'n llawn ond gallai fod yn broblem oherwydd cymhlethdod y dechnoleg sy'n gysylltiedig â'u gweithrediad. Roedd yr adran hefyd yn profi anawsterau mawr wrth ddod o hyd i rannau ar eu cyfer. Ar hyn o bryd roedd 2 gyfleuster golchi dwylo yn gweithio yn nhai bach y merched a 3 rhai'r dynion. Roedd rhannau wedi'u harchebu beth amser yn ôl ar gyfer y peiriannau nad oeddent yn gweithio'n gywir, ac roedd disgwyl i'r rhannau hyn gyrraedd yn fuan. Ar ôl eu derbyn, byddai'r cyfleusterau golchi dwylo yn cael eu hatgyweirio a ddisgwylid hynny'n fuan iawn. Ar un o'r cyfleusterau golchi dwylo, deuai'r dŵr allan yn boeth ond roedd yn oeri ar unwaith ac felly roedd yn cael ei asesu ar gyfer ei atgyweirio ar hyn o bryd.

Roedd y cyfleusterau'n cael eu mynychu'n rheolaidd, gyda'r staff yn gallu cau peiriannau'n gyflym a oedd yn camweithredu am unrhyw reswm. Darperid cyflenwadau o ddiheintydd dwylo hefyd a gellid defnyddio'r rhain i ategu golchi dwylo gyda'r peiriannau neu fel dewis arall pe na bai'r un o'r peiriannau ar gael.

Ategiadau

Gofynnodd y Cynghorydd Nugent-Finn pryd y byddai'r cyfleusterau'n weithredol.

Dywedodd yr Aelod Cabinet mewn ymateb ei fod hefyd wedi mynd ar drywydd hyn ac roedd yn obeithiol y byddent yn weithredol erbyn diwedd y mis.

(xv) Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson

A allai'r Arweinydd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cyngor am y cynnydd a wnaed ar Gynnig y Cyngor a basiwyd ym mis Chwefror 2020 ar Losgydd Dociau'r Barri ac a adroddwyd ddiwethaf drwy gwestiwn i'r Cyngor gan y Cynghorydd Collins ym mis Mawrth 2021, gan gyfeirio'n benodol at yr adolygiad annibynnol a'r camau gorfodi?

Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Roedd y datblygiad Biomas wedi'i fonitro ers i'r gwaith adeiladu cychwynnol arno ddechrau. Hyd yma, nid oedd y gwaith yn weithredol o hyd er bod rhai profion wedi'u cynnal ar y tyrbinau. Roedd y defnydd o achosion gorfodi ffurfiol yn parhau i gael ei ystyried, yn enwedig o ran methiant yr ymgeisydd/perchennog i reoleiddio elfennau anawdurdodedig y gwaith yn ffurfiol. Roedd y Cyngor wedi cael cyngor cyfreithiol gan Gwnsler i lywio'r ystyriaeth hon a oedd yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Byddai Adroddiad y Cwnsler ar yr Adolygiad Annibynnol yn cael ei adrodd i'r Cabinet ar ôl Egwyl yr Haf a dywedodd yr Arweinydd fod y Cyngor wedi penodi bargyfreithiwr.

Roedd swyddogion wedi ysgrifennu at y datblygwyr i ddweud nad oedd yr hyn a adeiladwyd ar y safle yn cyd-fynd â'r cynlluniau a gymeradwywyd o dan y cais cynllunio perthnasol (cyfeirnod 2015/00031/OUT) a bod materion wedi'u nodi na allent, ym marn y Cyngor, gael eu datblygu nac eu rheoleiddio drwy'r weithdrefn 'Diwygio Ansylweddol'. Roedd y datblygwyr wedi cael gwybod ei bod yn debygol y byddai angen iddynt wneud cais adran 73A (i reoleiddio'r sefyllfa) er mwyn gofyn am ganiatâd cynllunio ôl-weithredol ar gyfer y datblygiad fel y'i hadeiladwyd ar y safle, a fyddai (o ystyried y newid mewn rheoliadau ers cais 2015) yn gais 'Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol'. Byddai angen cyflwyno hyn hefyd i Weinidogion Cymru a nhw fyddai'n penderfynu.

Roedd y datblygwyr yn anghytuno â'r sefyllfa ac wedi gofyn am eu cyngor cyfreithiol eu hunain yn hyn o beth, ond ni fyddai unrhyw beth yr oedd y Cyngor wedi'i weld hyd yma yn newid ei farn bod angen cais newydd am yr hyn a adeiladwyd.

Ar ddiwedd mis Mai 2021 roedd yr ymgeiswyr wedi cyflwyno cais ond dim ond ar gyfer caniatâd cynllunio ôl-weithredol (Adran 73A) ar gyfer codi a defnyddio tanc dŵr

tân silindraidd; roedd hyn wedi'i ddileu'n flaenorol gan y datblygwyr ond ers hynny wedi'i ail-godi heb unrhyw ganiatâd cynllunio. Dywedodd y Cyngor yn ffurfiol wrth y datblygwr nad ystyrid bod hwn yn gais a wnaed yn ddilys gan ei fod yn rhan o'r datblygiad yn ei gyfanrwydd ac felly dylai fod yn rhan o gais cynllunio adran 73A ehangach i reoleiddio'r datblygiad cyfan ac y dylid cyflwyno hyn yn lle hynny i Weinidogion Cymru yn unol ag Adran 62D Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 (fel y'i diwygiwyd) fel 'Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol'. Mae'r ymgeiswyr yn gwrthod safbwynt y Cyngor ac yn gwrthod cofrestru'r cais o dan fath newydd o apêl a elwir yn apêl ddilysu i'r Arolygiaeth Gynllunio a ddiddymodd yr hysbysiad annilysrwydd ar y sail nad dyma'r broses gywir i'w dilyn. Cadarnhawyd bellach gan Lywodraeth Cymru mai dim ond os oes digon o wybodaeth i gofrestru'r cais yn hytrach na'r pwyntiau cyfreithiol manylach ynghylch a yw'n ddatblygiad o arwyddocâd Cenedlaethol ac ati y caiff y broses apelio dilysrwydd ei hystyried.

Byddai'r Cyngor yn awr yn gofyn am farn bellach gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r cyflwyniad, ond o ystyried y farn na ellir ystyried y cais am y tanc dŵr mewn ffordd dameidiog, ar wahân i ystyried y gwaith cyfan (yn enwedig gan ei fod bellach yn ofynnol fel rhan o unrhyw gytundeb trwyddedu gyda Cyfoeth Naturiol Cymru), ni fyddai'r cais yn cael ei gofrestru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd yn ymateb i'r cais ynglŷn â'r ffordd gywir y dylai'r mater hwn ddatblygu ar ôl iddo gael ei gyngor cyfreithiol pellach ei hun a byddwn yn aros am yr ymateb hwn cyn bwrw ymlaen ymhellach.

Ategiadau

Gofynnodd y Cynghorydd Dr Johnson i'r Arweinydd a fyddai'n rhoi gwybod i'r Aelodau am y cynnydd y cytunodd yr Arweinydd i'w wneud.

(xvi) Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson

Pa gynnydd sydd wedi'i wneud o ran gweithredu'r Rhaglen Ôl-ffitio wedi'i Optimeiddio ym Mro Morgannwg, sy'n anelu at leihau allyriadau carbon a biliau cyfleustodau deiliaid tai, a pha gamau sydd wedi'u cynllunio yn y dyfodol ar gyfer ôl-ffitio eiddo tai trefol y Cyngor?

Ateb gan Aelod Cabinet dros Dai a Gwasanaethau Adeiladau

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y Tîm Tai a Gwasanaethau Adeiladau wedi ymgysylltu â chontractwr lleol yn y Barri i ddarparu 57 o systemau gwresogi hybrid o fewn stoc dai'r Cyngor gyda'r rhaglen 16 wythnos a fyddai'n gorffen yn ail wythnos mis Tachwedd 2021.

Cyn gwneud y gwaith gosod, roedd Coleg Pen-y-bont ar Ogwr wedi ymrwymo'n llwyddiannus i uwchsgilio staff y Cyngor mewnol a gweithredwyr y contractwr i alluogi'r gwaith ôl-ffitio i gael ei wneud, gyda hyfforddiant uwchsgilio pellach i'w ddarparu ar ôl gwyliau'r haf. Yn dilyn yr hyfforddiant, cadarnhawyd bod y ddau eiddo peilot cyntaf wedi'u cwblhau ar 19/07/2021.

Fel rhan o ofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyllid grant, roedd y tîm yn rhoi diweddariadau rheolaidd am yr heriau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiect ôl-ffitio gan gynnwys gwersi a ddysgwyd mewn perthynas â chyfathrebu â thenantiaid, rhwystrau gosod a gofynion y gadwyn gyflenwi. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymgysylltu â Phrifysgol Abertawe i gasglu data ar wahanol gamau o'r prosiect ac roedd y tîm yn gweithio'n agos gyda nhw i sicrhau bod y data'n cael ei gasglu yn y cyfnodau allweddol.

Parhaodd y Tîm i weithio gyda PassivUK Ltd i ddatblygu meddalwedd monitro a fyddai'n cael ei osod mewn 100 eiddo arall o fewn stoc dai'r Cyngor. Byddai Pasbort Adeiladu (sy'n cynnwys arolwg ynni PAS2035) yn cael ei gynhyrchu ar gyfer pob eiddo, a fyddai'n darparu data i gefnogi ceisiadau pellach am arian grant i osod technoleg ôl-ffitio o fewn stoc y Cyngor i gyrraedd carbon sero neu mor agos at hynny â phosibl.

Byddai'r Tîm Datblygu a Buddsoddi tai hefyd yn cynnal asesiadau PAS2035 i lywio'r atebion ôl-ffitio cywir ac ariannol gadarn i'w gosod ar y stoc, a byddai'r canlyniadau'n bwydo i mewn i Gynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai a phenderfyniadau buddsoddi uniongyrchol dros y blynyddoedd nesaf.

(xvii) **Cwestiwn gan y Cyngorydd Dr. I.J. Johnson**

Yn ystod y misoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi cefnogi rhaglenni diogelwch ar y ffyrdd mewn ardaloedd gwledig yn bennaf, megis menter Llywodraeth Cymru yn Sant y Brid a'r mentrau a gyhoeddwyd yn fwy diweddar yn Aberthin a Llanbedr-y-Fro. Er ein bod yn aros y ddeddfwriaeth newydd ar gyfer cyflwyno parthau 20mya, pa gynlluniau sydd gan y Cyngor i dreialu parthau 20mya mewn trefi trefol, megis y Barri, i ddysgu gwersi ynghylch cydymffurfio a gorfodi rheolau gyrru'n gyflym mewn ardaloedd adeiledig?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod Llywodraeth Cymru wrthi'n ymgynghori ar gyflwyno terfynau 20 mya ledled Cymru, a fyddai'n golygu yn ei hanfod y byddai 20 yn dod y 30 newydd gyda rhai eithriadau, a byddai'r ymgynghoriad yn cau 1 Hydref, 2021. Fel rhan o'r broses o gyflwyno hynny, roedd gan Lywodraeth Cymru wyth ardal beilot a oedd yn cynnwys ardaloedd gwledig a threfol hefyd. Llwyddodd y Cyngor i gael cynllun peilot ar gyfer Sant-y-brid ac roedd y cynllun wedi'i roi ar waith ac roedd y canlyniadau gan gynnwys cyflymder gyrwyr ac ansawdd aer yn cael eu bwydo i'r gwaith sy'n mynd rhagddo. Roedd ardaloedd eraill a gynhwyswyd yn y cynlluniau peilot yn cynnwys:

- Y Fenni, Sir Fynwy
- Canol Gogledd Caerdydd
- Glannau Hafren, Sir Fynwy
- Bwcle, Sir y Fflint
- Pentref Cilfriw, Castell-nedd a Phort Talbot
- Llandudoch, Sir Benfro
- Gogledd Llanelli, Sir Gaerfyrddin.

Roedd adroddiad wedi'i ystyried gan y Cabinet ar 21 Mehefin, 2021 mewn perthynas â dwy ardal ychwanegol ar gyfer gorchmynion terfyn cyflymder arbrofol 20 mya yn Aberthin a Llanbedr-y-fro. Roedd y rhesymau dros ddewis yr ardaloedd wedi'u nodi'n llawn yn adroddiad y Cabinet a chyda Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â'r ddeddfwriaeth, nid ystyrid ei bod yn ddoeth ystyried unrhyw ardaloedd pellach ar gyfer prosiectau peilot ar hyn o bryd.

Ategiadau

Holodd y Cynghorydd Dr Johnson pa sicrwydd y gallai'r Aelod Cabinet ei ddarparu mewn perthynas â gorfodi a chydymffurfio ac a fyddai'r Aelod Cabinet yn ystyried cynnal treial cyn y ddeddfwriaeth.

Mewn ymateb, dywedodd yr Aelod Cabinet nad oedd yn gwybod pa dreial yr oedd y Cynghorydd Dr Johnson yn gofyn amdano ond nad oedd ychwaith yn credu y byddai'n briodol ymgymryd ag unrhyw ardaloedd pellach. O ran gorfodaeth, dywedodd fod hyn yn fater i'r Heddlu o dan eu pwerau, fodd bynnag, dywedodd ei bod yn bosibl y gallai pethau gael eu hamrywio neu eu newid yn y ddeddfwriaeth. Dywedodd yr Aelod Cabinet hefyd, yn ei farn ef, mai'r hyn yr oedd angen ei wneud oedd ennill galonnau a meddyliau modurwyr gan ei fod e'n bersonol yn pryderu ei bod yn anos perswadio'r modurwr i lynu wrth 20mya yn rhai o'r ffyrdd nag eraill. Fodd bynnag, roedd yr holl ystadegau'n cyfeirio at y ffaith hon: pe bai rhywun mewn gwrthdrawiad ar 20mya, mae mwy na siawns o oroesi, ond ar 30mya roedd yr ystadegau ar gyfer goroesi yn llawer gwaeth.

(xviii) Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson

Pa waith y mae'r Cyngor yn ei wneud dros wyliau'r Haf i gefnogi plant i ddal i fyny â'u dysgu, ar ôl y tarfu a fu o ganlyniad i'r Coronafeirws, gan gyfeirio'n benodol at blant sy'n derbyn y Grant Datblygu Disgyblion a'r Rhaglen Gwella Gwyliu'r Ysgol?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir nad oedd yn cefnogi rhaglenni ffurfiol yn ystod gwyliau'r haf ar gyfer dysgu dal i fyny. Fodd bynnag, roedd nifer o raglenni a oedd yn cael eu cynnal dros y gwyliau i gefnogi pobl ifanc o bob oed.

Tynnodd yr Aelod Cabinet sylw'r Aelodau at y Rhaglen Gwella Gwyliu'r Ysgol, sef rhaglen addysg a leolir yn yr ysgol sy'n cynnig addysg bwyd a maeth, gweithgaredd corfforol, sesiynau cyfoethogi a phrydau iach i blant mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol yn ystod gwyliau'r ysgol.

Nodwyd y byddai 4 ysgol gynradd yn cymryd rhan yn y rhaglen dros yr haf yn 2021, sef ysgolion cynradd Gladstone, Ysgol y Ddraig, Oakfield a Thregatwg. Roedd y Cyngor a'i ysgolion yn gweithio ochr yn ochr â'i gwmni masnachu, Big Fresh Catering, a oedd wedi cynllunio bwydlenni iach a maethlon, gan sicrhau bod y disgyblion yn cael deiet cytbwys, iach a diddorol.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £196,000 i Gyngor Bro Morgannwg i gynnal Rhaglen Haf o Hwyl dros yr haf i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed. Er bod yr Haf o Hwyl yn agored i bob plentyn a pherson ifanc, gofynnwyd i Awdurdodau Lleol a sefydliadau partner ystyried sut y gallent gyrraedd y rhai a oedd wedi profi effeithiau mwyaf Covid a darparu cynwysoldeb o fewn yr ystod oedran hon. Roedd y Fro wedi mabwysiadu dull deuol, gan ddarparu gweithgareddau a oedd yn agored i bawb, yn ogystal ag ymgymryd â rhywfaint o ddarpariaeth a dargedir ar gyfer yr unigolion nad ydynt efallai'n gallu cael mynediad at ddarpariaeth prif ffrwd neu a fyddai'n elwa o gymorth mwy targedig. Byddai'r rhaglen yn cyflwyno rhaglen helaeth gyda chlybiau, gweithgareddau, chwaraeon, gweithgareddau, sesiynau ychwanegol chwaraeon, celfyddydau a chwarae a mwy.

Roedd y ddarpariaeth hon yn ychwanegol at yr hyn a gynigid eisoes gan wasanaethau'r Cyngor e.e. byddai'r timau Chwarae a Chwaraeon hefyd yn cynnal eu sesiynau a'u gweithdai eu hunain mewn ardaloedd allweddol ledled y Fro, ochr yn ochr â rhaglen 3 wythnos gan y Gwasanaeth Ieuencid, yn cefnogi'r tîm Diogelwch Cymunedol. Roedd y wybodaeth hefyd ar gael ar wefan y Cyngor.

Ategiadau

Gofynnodd y Cynghorydd Dr Johnson, sy'n ymwybodol bod pedair ysgol cyfrwng Saesneg yn cymryd rhan yn y rhaglen, a ellid gwneud gwaith i gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg y flwyddyn ganlynol.

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y rhaglen wedi cael ei hyrwyddo'n eang a byddai wrth ei bodd pe bai ysgol cyfrwng Cymraeg yn cymryd rhan yn 2022 yn amodol ar gyllid. Fodd bynnag, roedd cyllid ar gael i ysgolion drefnu eu mentrau eu hunain.

(xix) Cwestiwn gan y Cynghorydd L.O. Rowlands

A wnaiff yr Arweinydd gadarnhau faint o achosion o fwlio yn y gweithle sydd wedi cael eu hadrodd gan weithwyr y Cyngor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf?

Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Mae'r Cyngor wedi cael un achos o fwlio/aflonyddu yn ystod y 12 mis diwethaf. Cafodd yr achos ei ddatrys ym mis Mai 2021, ac nid oes unrhyw achosion pellach yn aros nac wedi dod i law.

Ategiadau

Holodd y Cynghorydd Rowlands a oedd yr Arweinydd yn cytuno nad oedd bwlio aelod o staff neu Gynghorydd yn dderbyniol mewn cymdeithas a bod plaid sy'n colli Aelod i fwlio yn anffodus, ond y byddai plaid yn colli dau Aelod yn cael ei hystyried yn ddiotal.

Dyweddod yr Arweinydd nad oedd yn goddef bwlio, nid oedd yn credu bod unrhyw fwlio wedi bod ond pe bai'r Cynghorydd Rowlands o'r farn bod bwlio yn ei Grŵp, awgrymodd y dylai fynd i'r afael â'r achos yn ei Grŵp.

(xx) **Cwestiwn gan y Cynghorydd Dr. I.J. Johnson**

Ym mis Rhagfyr 2018, penderfynwyd y byddai Cyngor y Fro yn gweithio tuag at ddod yn Gyflogwr Cyflog Byw gydag achrediad ffurfiol gan y Sefydliad Cyflog Byw, ac yn ymrwymo i dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'r holl gyflogeion uniongyrchol, yn ogystal â datblygu polisïau i sicrhau bod y Cyflog Byw Gwirioneddol yn cael ei dalu i staff a gyflogir yn anuniongyrchol. Pa gynnydd sydd wedi'i wneud tuag at y nodau hyn?

Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Roedd y Cyngor wedi bod yn talu staff a gweithwyr asiantaeth dros y Cyflog Byw ers nifer o flynyddoedd. Roedd y Cyngor yn gwerthfawrogi ei fod ar hyn o bryd yn talu isafswm cyfradd o £9.43 yr awr, a oedd 7 ceiniog yn is na'r cyflog byw presennol, fodd bynnag, nid oedd y dyfarniad cyflog cenedlaethol ar gyfer gweithwyr llywodraeth leol wedi'i bennu eto, ac roedd yn debygol o fynd â'r Cyngor uwchlaw'r cyflog byw unwaith eto, a fyddai'n ôl-ddyddio i 1 Ebrill, 2021.

Roedd trafodaethau wedi dechrau i adolygu'r Cyngor yn dod yn gyflogwr cyflog byw a fyddai hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor sicrhau bod unrhyw gontractwyr yn talu'r cyflog byw. Roedd y Cyngor mewn trafodaethau gyda'i dîm Caffael i adolygu'r broses cyflog byw ar sut y gellid cynnwys hyn mewn ymarferion caffael yn y dyfodol.

Byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei darparu maes o law ar ôl i'r drafodaeth gael ei chynnal, gyda'r nod o ddod yn Gyflogwr Cyflog Byw achrededig.

Ategiadau

Mewn ymateb i ymholiad y Cynghorydd Dr Johnson ynglŷn ag amserlen, dywedodd yr Arweinydd fod trafodaethau'n parhau ar gyfer ymarferion caffael yn y dyfodol.

309 CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD –

Cyflwynwyd y cwestiynau canlynol ac atebwyd nhw fel y dangosir, yn unol â'r protocol y cytunwyd arno gan y Cyngor ar 5 Mai, 2010:

(i) **Cwestiwn gan Mr. A. Dobbison**

Faint o eiddo'r Cyngor ym Mro Morgannwg sy'n cynnwys mynediad i le(fydd) parcio cerbydau h.y. rhodfeydd ac ati sy'n golygu bod yn rhaid i'r cerbyd groesi llwybr troed mabwysiedig heb fod cwrbyn isel? Pa gamau, os o gwbl, y mae'r Cyngor yn eu cymryd i reoleiddio'r sefyllfa hon?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Diolch am eich cwestiwn Mr. Dobbinson. Hyd yma, nodwyd bod gan 34 eiddo'r Cyngor groesfannau heb y ddarpariaeth cwrbiau isel angenrheidiol. Mae'r gofyniad i osod croesfannau cerbydau wedi'u hadeiladu'n briodol yn y llwybr troed yr un fath ar gyfer eiddo'r Cyngor ag yw ar gyfer eiddo preifat.

Mae'n ofynnol i denantiaid gael caniatâd ar gyfer unrhyw addasiadau i'w heiddo fel rhan o'u cytundeb tenantiaeth. Yn yr achos hwn, byddai hefyd yn ofynnol iddynt gael y caniatâd angenrheidiol gan ein Hadran Priffyrdd a byddai'n ofynnol iddynt dalu am y cais hwn a'r gwaith dilynol i greu'r groesfan ar y briffordd.

Os oes gan denant broblemau symudedd penodol a allai ofyn am ddarpariaeth parcio oddi ar y stryd, caiff hyn ei asesu gan Dîm Therapi Galwedigaethol y Cyngor a gallai'r gwaith fod yn rhan o gais am grant cyfleusterau i'r anabl.

Fel gyda pherchen-feddianwyr preifat, dylai tenantiaid Tai'r Cyngor roi'r gorau i ddefnyddio unrhyw gerbydau anawdurdodedig os nad ydynt mewn sefyllfa i fwrw ymlaen â chais. Mae ein swyddogion tai ar gael i roi cymorth a chyngor i'n tenantiaid ar y mater hwn ac maent yn gweithio gyda nifer o denantiaid i helpu i ddatrys unrhyw faterion sydd ganddynt.

Nodyn

Ces wybod y bydd tîm ail-osod y Cyngor, cyn ail-osod eiddo, yn cael gwared ar fynediad cerbydau i erddi os yw'r rhain wedi'u creu'n anghyfreithlon. Bydd hyn yn golygu cau unrhyw fynediad drwy ffensys ffin ond peidio â chael gwared ar unrhyw fan parcio caled a allai fod wedi'i ffurfio.

(ii) Cwestiwn gan Mrs. J. Gough

Hoffwn ofyn a fydd y Cyngor yn ailystyried y ffioedd parcio sy'n dod i rym yn ein manau hardd lleol. Rwy'n mynd yn aml i Borthceri, Cosmeston ac Ynys y Barri wrth fynd â'm ci am dro. Cytunaf yn gyndyn y byddai codi ffi flynyddol o £50 i barcio a mynd â'm ci am dro bob dydd yn dderbyniol. Nid oedd yn glir mai dim ond ym Mhorthceri a Cosmeston byddai'r ffi hon yn ddilys. Teimlaf fod y tâl o £100 y flwyddyn ar gyfer parcio i fynd i'r Ynys yn annheg ac yn ormodol. Os gwelwch yn dda, ailystyriwch y gost i'r rhai sy'n mynd â'u cŵn am dro a phobl leol sy'n defnyddio'r holl gyfleusterau'n rheolaidd a'r effaith ar fasnach leol yn ystod misoedd y gaeaf.

Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Diolch am eich cwestiwn Mrs. Gough. Byddwn yn datgan yn gyntaf bod darparu cyfnodau parcio am ddim i drigolion lleol yn flaenoriaeth gennym pan benderfynwyd ar y trefniadau codi tâl ar gyfer Parciau Gwledig. Yn ogystal â'r £50 a gredwn sy'n dâl rhesymol a theg i gael mynediad i'n Parciau Gwledig am flwyddyn, nid yw'r taliadau'n dechrau yn y lleoliadau hyn tan 10.00a.m, penderfyniad a wnaed i

gynorthwyo a sicrhau na fyddai rhaid i lawer o'n trigolion lleol sy'n defnyddio'r safleoedd hyn i fynd am dro yn rheolaidd yn gynnar yn y bore dalu am barcio. Hefyd, maent yn dod i ben yng nghyfnod yr haf am 8.00 p.m. ac am 5.00 p.m. yn y gaeaf. Bydd cyllid a dderbynnir o ffioedd parcio yn ein Parciau Gwledig yn cael ei ail-fuddsoddi yn y Parciau Gwledig hynny, gan helpu i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor yr atyniadau pwysig hyn.

O ran ein meysydd parcio yn Ynys y Barri, mae'r tâl blynyddol am drwyddedau parcio yn adlewyrchu'r tâl dyddiol uwch yn y lleoliad hwn, sef £6.00 y dydd. Os defnyddir y maes parcio hwn am fwy nag 1 awr, hyd yn oed unwaith bob pythefnos, byddai'r drwydded flynyddol o £100 yn talu amdano ei hun.

Hoffwn dynnu sylw at y ffaith nad oes rhaid i chi brynu'r drwydded barcio flynyddol neu 6 misol os ydych yn fodlon ar y trefniadau parcio presennol wrth ymweld ag Ynys y Barri, gan fod taliadau parcio ceir eisoes ar waith yn y lleoliad hwn.

Yn ogystal, mae lle parcio am ddim ar y stryd yn ardal Ynys y Barri yn Friars Road.

O ran effaith bosibl y taliadau trwyddedau newydd ar fusnesau, byddem yn gobeithio y byddai hyn yn gadarnhaol, yn enwedig i'r busnesau y mae eu staff yn defnyddio ein meysydd parcio â thâl yn rheolaidd ar hyn o bryd. Nid ydym yn disgwyl i daliadau'r drwydded barcio gael unrhyw effaith negyddol ar amodau masnachu. Mae ymwelwyr yn mynychu Ynys y Barri yn eu niferoedd oherwydd ei phoblogrwydd amlwg, mae taliadau parcio'r haf fel y buont ers nifer o flynyddoedd bellach. Mae'r drwydded barcio yn opsiwn ychwanegol ar gyfer y defnyddwyr maes parcio mwyaf mynych ac yn hytrach nag atal unrhyw un rhag mynychu Ynys y Barri, mae'n cynnig opsiwn ychwanegol a llawer rhatach ar gyfer ymwelwyr rheolaidd ac aml.

(iii) **Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby (Ar ran Beautiful Barry)**

O ystyried mai yn y Barri mae'r cynnydd a'r gostyngiad llanw mwyaf yn y DU, mae'r Cyngor wedi derbyn bod problem fyd-eang gyda llygredd plastig ac er gwaethaf nifer uchel y masnachwyr a chynghorwyr a oedd yn yr Uwchgynhadledd Sbwriel 3 neu 4 blynedd yn ôl, ychydig iawn o newid a fu yng ngweithredoedd yr ymwelwyr. Er ein bod yn gwerthfawrogi'r newidiadau a wnaed o ran y system PA, rhagor o finiau a'r arwyddion newydd, pan fydd grŵp gwirfoddol yn codi 108 leinin bin ym mis Mehefin, a fu'n lawog gan fwyaf, rhaid derbyn nad yw'n gweithio. Beth gall y Cyngor ei wneud i annog yr ymwelwyr i fynd â'u sbwriel o'r traeth? Gwnaed llawer o awgrymiadau yn yr Uwchgynhadledd ond nid yw'n ymddangos bod yr un o'r rhain wedi'u gweithredu, ac rydym yn awr yn agosáu at argyfwng amgylcheddol, gyda faint o sbwriel sy'n cael ei dynnu allan i'r môr.

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Manteisiodd yr Aelod Cabinet ar y cyfle i ddiolch i Grŵp Beautiful Barry a gwirfoddolwyr eraill a gynorthwyodd i gadw ein traethau'n lân gan ddweud bod yr ymdrechion yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr ac yn anffodus maent yn gwbl angenrheidiol mewn llawer o ardaloedd arfordirol yn y DU, nid dim ond Ynys y Barri.

Cydnabu'r Aelod Cabinet yr heriau sy'n ymwneud â sbwriel ar y traeth ac roedd wedi ymrwmo i ddarparu amgylchedd diogel a glân cyn ac ar ôl i bobl ymweld â thraethau'r Fro ac yn arbennig, Whitmore Bay, Ynys y Barri. Roedd y mater, ar y cyfan, yn gysylltiedig ag ymddygiad gwael hyn a hyn o'n hymwelwyr, a ddywedodd yn ei farn ef nad oeddent yn poeni am yr amgylchedd lleol na'r effaith yr oedd eu gweithredoedd yn ei chael ar eraill. Yn amlwg, roedd angen rhaglen barhaus o waith addysg ac ymwybyddiaeth o hyd wrth i ymwelwyr amrywio ac roedd y broblem yn cynrychioli mater ehangach mewn cymdeithas.

Cynhyrchwyd 64 o syniadau yn yr Uwchgynhadledd Sbwriel ym mis Mai 2018, ac roedd rhai ohonynt yn cynnwys awgrymiadau ar gyfer masnachwyr megis gwahardd defnyddio poteli plastig a chynwysyddion polystyren, a mentrau cenedlaethol eraill megis peiriannau gwerthu y ffordd groes ar gyfer poteli plastig. Roedd nifer o'r syniadau lle'r oedd y Cyngor yn gyfrifol wedi'u rhoi ar waith, gan gynnwys cyflwyno ymatebion sbwriel aur / arian / efydd y cytunwyd arnynt o flaen llaw yn arwain at benwythnosau / gwyliau'r banc, hanner tymor a newidiadau tywydd, lle'r oedd swm yr adnoddau a ddyrannwyd i'r gyrchfan yn seiliedig ar nifer yr ymwelwyr disgwylidig. Bu cynnydd hefyd yn y ddarpariaeth biniau ac arwyddion. Roedd biniau swmp a cherbydau casglu gwastraff pwrpasol hefyd wedi'u trefnu yn ystod cyfnodau prysur. Roedd y Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus, gyda'r nod o fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n gysylltiedig ag alcohol wedi'i adnewyddu, a pharatowyd cyhoeddiadau ar y cyfryngau cymdeithasol gan swyddogion hefyd yn cynghori ymwelwyr am y trefniadau sbwriel a'r effeithiau ar yr amgylchedd pe bai unrhyw sbwriel yn cael ei adael ar y traeth. Ar gyfer yr haf hwn, byddai mwy o bresenoldeb gorfodi a staff glanhau wedi'u neilltuo i'r draethlin ar adegau llanw penodol i helpu i atal sbwriel rhag mynd i mewn i'r môr. Byddai perygl sbwriel i'r amgylcheddau tir a morol hefyd yn rhan o gyhoeddiadau rheolaidd y Cyngor ar yr uchel seinydd.

Dywedodd y gobeithiai y byddai'r mesurau yn dod â gwelliant yn ymddygiad ymwelwyr yn ystod tymor yr haf ond byddai'r Cyngor yn parhau i fod yn arloesol wrth asesu opsiynau newydd ar gyfer newid ymddygiad gan fod hyn wedi'i nodi fel llinyn cyffredin drwy lawer o'r syniadau a awgrymwyd yn yr Uwchgynhadledd.

(ix) **Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby (Ar ran Beautiful Barry)**

Gyda thaliadau parcio a thrwyddedau ar waith yn Heol Holltwn, ai Sgwâr y Brenin yw'r Maes Parcio newydd am ddim? Er ei fod yn amlwg yn cael ei ddefnyddio gan rai o weithwyr y Cyngor ar gyfer mynediad i'r Parc Canolog, mae'n ymddangos ei fod yn cael ei ddefnyddio fel maes parcio personol staff Cyngor y Dref ac unrhyw yrwyr danfon, ac nawr siopwyr. Mae hyn yn hyll ar adeg pan fo angen gwella agwedd weledol y dref, ac mae'n beryglus gan ei fod yn cael ei defnyddio'n gyson gan y cyhoedd sy'n cerdded, gan gynnwys llawer o blant sy'n mynd i'r Parc Canolog.

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Ni chynigiwyd codi unrhyw daliadau parcio ar gyfer Heol Holltwn nac unrhyw gynlluniau trwyddedau parcio newydd i'w cyflwyno yn yr ardal. Byddai taliadau'n cael eu cyflwyno ym Maes Parcio Wyndham Street ym mis Medi, yn dilyn

cyhoeddiad diweddaraf Llywodraeth Cymru ar lefelau rhybudd Covid, ond byddai parcio'n parhau am ddim i ddefnyddwyr meysydd parcio am y ddwy awr gyntaf.

Roedd bolardiau codi a gostwng ar waith ar Sgwâr y Brenin ac ni fyddai parcio'n cael ei awdurdodi heb ganiatâd y Cyngor hwn. Roedd Sgwâr y Brenin ar agor yn y boreau ar gyfer danfoniadau ac yn cau am 11 a.m. Fodd bynnag, yn aml fe'i gadawid ar agor gan ddefnyddwyr, ac roedd yr Aelod Cabinet wedi gofyn i hyn gael ei fonitro a'i drin yn briodol.

O ran llefydd eraill lle mae parcio ar gael yn y Barri, roedd digon o le yn y maes parcio aml-lawr am ddim yn Court Road yn ogystal â meysydd parcio poced am ddim yn Thompson Street a Kendrick Road. Roedd manau aros cyfyngedig am ddim hefyd ar hyd Heol Holttwn ar gyfer ymwelwyr â chanol y dref.

(v) **Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby (Ar ran Beautiful Barry)**

Pam mae'r lleoliad yn cael ei gofnodi ar gyfer troseddau parcio ond nid dirwyon sbwriel? Sut y gellir monitro effeithiolrwydd gorfodi heb wybod y lleoliadau?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Dywedodd yr Aelod Cabinet na wyddai o ble cafodd Mrs Ockerby y wybodaeth hon ond dywedodd ei bod yn anghywir. Roedd gan yr adran gofnodion o ble y cyhoeddwyd Hysbysiadau Cosb Benodedig ar gyfer taflu sbwriel a defnyddid y wybodaeth i lywio'r trefniadau patrolio.

Wrth benderfynu ar batrymau patrolio, ymatebai'r Cyngor hefyd i wybodaeth yn ymwneud â sbwriel a chwynion tipio anghyfreithlon a dderbynnid gan gwsmeriaid drwy'r ganolfan gyswllt.

Yn anffodus, derbyniai'r Aelod Cabinet fod yn rhaid bod bygythiad gorfodi neu gosbau i rai unigolion er mwyn iddynt newid eu hymddygiad gwael, a bod 'Gorfodi' yn gonglfaen pedair elfen newid ymddygiad effeithiol: Addysg / Annog, Peirianeg a Gorfodi.

Er bod effeithiolrwydd gorfodi ei hun yn nodedig o anodd ei fesur, byddai'r adran yn parhau i ymgymryd â gorfodi yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael fel rhan o'r mesurau rheoli cyffredinol ar gyfer sbwriel a thipio anghyfreithlon.

I gloi, ychwanegodd yr Aelod Cabinet fod llawer iawn o wybodaeth yn cael ei chyhoeddi drwy'r gyfryngau cymdeithasol a chyfryngau eraill ynghylch gweithgareddau'r Cyngor ar gyfer parcio a gorfodi amgylcheddol a byddai'r Cyngor yn parhau i wneud hyn.

(vi) Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby (Ar ran Beautiful Barry)

Ble mae'r ffynhonnau dŵr yfed a phryd y cânt eu gosod yn y parciau fel y bwriadwyd, gan fod yr arian wedi'i neilltuo ar gyfer y rhain dros 3 blynedd yn ôl a bydd eu gosod yn helpu yn y frwydr yn erbyn llygredd plastig?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Roedd yr Aelod Cabinet yn falch iawn o ddweud bod 11 o orsafoedd yfed wedi'u gosod ar hyn o bryd mewn safleoedd o amgylch y Fro fel a ganlyn:

Gerddi Gladstone Uchaf y Barri
Dwy ffynnon ar Brome'nâd Ynys y Barri
Dwy ffynnon ym Mharc Fictoria, y Barri
Parc Belle Vue, Penarth
Parc Sglefrio Newydd Cogan, Penarth
Ystafelloedd Newid Ceri Road, Y Rhws
Pafiliwn Parc Milburn, Y Rhws
Canolfan Gymunedol Murch, Dinas Powys
Bloc Toiledau, Prif Faes Parcio, Aberogwr

Roedd gan y Cyngor hefyd gynlluniau i osod 8 gorsaf yfed arall yn ystod y 1-2 flynedd nesaf ar y safleoedd canlynol:

Parc Canolog, Y Barri
Gerddi'r Cnap, Y Barri
Parc Romilly, y Barri
Llwybr y Clogwyn, Penarth
Glan Môr Penarth
Parc Alexandra, Penarth
Canolfan Gymunedol Celtic Way, y Rhws
Lougher Place, Sain Tathan

Bu rhywfaint o oedi o ran cynnydd y cynlluniau gweithredu oherwydd Covid ond gobeithiai'r Aelod Cabinet y byddai Mrs Ockerby yn cytuno bod buddsoddiad y Cyngor mewn ffynhonnau dŵr yfed dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn sylweddol.

(vii) Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby (Ar ran Beautiful Barry)

Pa gyfathrebu y mae'r Cyngor wedi'i wneud gyda Dŵr Cymru ynghylch y arllwysiadau uchel iawn i'r Doc o'r arllwysfeydd carthion cyfunol? Gyda thrigolion yn cael llythyrau yn ymwneud â marina yn y dyfodol, mae'n sicr y bydd hyn yn flaenoriaeth cyn y gellid ystyried unrhyw gynlluniau at ddefnydd hamdden.

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cyfreithiol, Rheoleiddio a Chynllunio

Cynhaliai Gwasanaeth Rheoliadol a Rennir y Cyngor archwiliadau ddwywaith y flwyddyn o'r traethau dŵr ymdrochi dynodedig yn ei ardal, (3 ohonynt yn y Barri) gyda Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn rheoleiddwyr ar gyfer hyn. Cymerai CNC samplau dŵr hefyd yn ystod y tymor dŵr ymdrochi, er mwyn sicrhau bod ansawdd y dŵr o safon sy'n unol â'r Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi.

Gellid cael rhagor o wybodaeth drwy ymweld â gwefan CNC.

Nid oedd SRS yn ymwybodol o swm y gollyngiadau carthion cyfun yn ardal y dociau gan mai CNC oedd yn gyfrifol am hyn, ac ni chafwyd unrhyw hysbysiadau gan CNC na Dŵr Cymru i roi gwybod am unrhyw arllwysiadau diweddar.

Nid oedd y safle ar hyn o bryd yn safle dŵr ymdrochi dynodedig, nac yn farina.

(viii) Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby (Ar ran Beautiful Barry)

Beth sy'n cael ei wneud i adennill cost graffiti SOSO?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Roedd yr Heddlu wedi delio â'r mater ond yn anffodus ni fu modd iddynt adennill unrhyw gostau yn gysylltiedig â'r graffiti, am resymau nad oedd yr Aelod Cabinet yn gallu eu datgelu'n gyhoeddus.

Rhodddwyd cyngor i fusnesau yr oedd y graffiti wedi effeithio arnynt ar gynnyrch gwrth-graffiti a allai eu cynorthwyo pe bai unrhyw ddigwyddiadau yn y dyfodol ac i helpu i leihau'r difrod yn y dyfodol. Ar hyn o bryd roedd hon yn gost i'r busnesau preifat dan sylw.

Cynhaliwyd cyfarfodydd parhaus rhwng Tîm Diogelwch Cymunedol y Cyngor, ei staff Rheoli Canol y Dref a'r Heddlu bob mis i sicrhau cyfathrebu effeithiol rhwng y sefydliadau perthnasol a'r gymuned fusnes. Roedd y cyfarfodydd hyn hefyd yn helpu i nodi ac ymyrryd yn gynnar yn achos troseddau amgylcheddol fel y mater y cyfeirir ato.

(ix) Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby (Ar ran Beautiful Barry)

Beth sy'n cael ei wneud i alluogi llwybr Bird Cage i agor, gan fod y llwybr cerdded hwn wedi bod ar gau ers 2/6/2019?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Roedd y llwybr troed a elwid Birdcage Walk wedi bod ar gau i'r cyhoedd ers 22 Mehefin 2018 oherwydd natur anniogel y mur cynnal cyfagos a oedd yn strwythur sy'n eiddo i'r Cyngor ac yn cefnogi strwythur cadw preifat ar wahân ar y tir uwchlaw.

Cyfrannodd presenoldeb strwythurau cadw'r Cyngor a'r strwythurau cadw preifat yn yr ardal ac arwain at faterion diogelwch strwythurol cymhleth yn ogystal â sefyllfa gyfreithiol anodd a oedd yn gohirio gweithredu unrhyw atebion adferol a oedd yn cael eu datblygu hyd yma.

Ar hyn o bryd roedd y Cyngor yn cysylltu â'r partiön perthnasol ac yn ystyried ei sefyllfa gyfreithiol i benderfynu ar y ffordd orau o symud ymlaen. Yn y cyfamser, roedd y Cyngor yn monitro'r sefyllfa ac yn rheoli'r broses angenrheidiol o gael gwared ar lystyfiant a allai gyfrannu at y materion strwythurol ac a fyddai'n atal gwaith atgyweirio yn y dyfodol.

Dywedodd yr Aelod Cabinet ei bod felly'n angenrheidiol cadw Birdcage Walk ar gau er diogelwch y cyhoedd hyd nes y datrysir y mater o atebolrwydd a bod modd penderfynu a gweithredu yn llwyddiannus cynllun trwsio â'r parti priodol yn talu amdani. Yn anffodus, o ystyried natur gymhleth y sefyllfa, nid oedd yn bosibl darparu amserlen i ailagor Birdcage Walk ar hyn o bryd, ond manteisiodd yr Aelod Cabinet ar y cyfle i sicrhau Mrs. Ockerby bod swyddogion proffesiynol y Cyngor yn rhoi eu sylw llawn i'r mater, gyda'r bwriad o ddiogelu'r coffrau cyhoeddus orau ac ailagor y llwybr cyn gynted â phosibl.

(x) **Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby (Ar ran Beautiful Barry)**

Gyda'r Hen Harbwr yn parhau i gael ei lygru gan y cwch glas sydd hefyd yn niweidio Wal yr Harbwr, pryd mae'r Cyngor yn mynd i dynnu'r ddau gwch a beth fydd yn cael ei wneud i adennill costau hyn gan y perchennog?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Roedd y Cyngor wedi gofyn am gyngor gan asiantaethau allanol perthnasol ac er mai ar lefel isel roedd y bygythiad llygredd, roedd y sefyllfa'n amlwg yn annerbyniol. Daeth y cychod i mewn i'r Harbwr heb ganiatâd y Cyngor ac roeddent wedi aros heb ganiatâd, er bod y perchnogion wedi cael cyfarwyddyd y dylid symud y cychod.

Roedd symud y cychod yn broses gymhleth ond roedd y Cyngor yn gweithio ar gael gwared arnynt cyn gynted â phosibl. Roedd achosion cyfreithiol wedi dechrau ac felly roedd yr Aelod Cabinet yn gyfyngedig o ran faint o wybodaeth bellach y gallai ei datgelu gan yn amlwg nid oedd am ragfarnu unrhyw achos. Fodd bynnag, dywedodd y gallai dawelu meddwl Mrs. Ockerby bod hon yn fater o flaenoriaeth uchel.

(xi) **Cwestiwn gan Mr. M. Lock**

Mae cais Rhyddid Gwybodaeth yn datgelu bod y Cyngor wedi gwario bron i £20,000 ar waith atgyweirio i'r parc sglefrio yn y Cnap. A oedd hwn yn werth da gan fod y parc yn dal i fod mewn cyflwr gwael iawn ac yn llawn darnau pren anniogel a thyllau?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Hamdden, Celfyddydau a Diwylliant

Dywedodd yr Aelod Cabinet fod y gwaith y cyfeiriwyd ato yn y cwestiwn wedi'i wneud yn 2019. Roedd angen y gwaith oherwydd bod y rhan fwyaf o fyrddau Skate-lite yn methu. Roedd y rhain yn fyrddau drud iawn a nodwyd ar adeg eu disodli nad oedd y strwythur mewn cyflwr delfrydol a bod rhywfaint o gyrydu yn amlwg ar y ffrâm ategol. Fodd bynnag, estynnodd y gwaith a wnaed bryd hynny argaeledd y cyfleuster.

Yn anffodus, roedd y parc sglefrio bellach yn dod tua diwedd ei oes defnyddio ac roedd diddordeb mawr gan rai aelodau o'r gymuned sglefrio yn adnewyddu'r cyfleuster. Amcangyfrifwyd y byddai hyn yn costio tua £150,000 ac nid oedd gan y Cyngor y cyllid hwn ar hyn o bryd.

Yn anffodus, ni allai'r Cyngor barhau i atgyweirio'r cyfleuster gan nad oedd hyn yn gost-effeithiol mwyach, felly, pe na bai'n gallu dod o hyd i ateb ariannu yn fuan ar gyfer ei adnewyddu, byddai angen ystyried cau'r cyfleuster am resymau iechyd a diogelwch. Ar hyn o bryd roedd swyddogion yn gweithio drwy'r opsiynau gyda'r nod wrth gwrs o geisio cadw'r cyfleuster yn weithredol cyhyd ag y gallai, ond roedd yn her yn dod yn fwyfwy anodd.

(xii) Cwestiwn gan Mr. M. Lock

Ar ran Beautiful Barry, rydym wedi gofyn am gael cynrychiolydd cyhoeddus parhaol ar gyfarfodydd Craffu o'r blaen. A fyddai'r Cyngor yn caniatáu ac yn croesawu hyn ac a ellid sefydlu Fforwm Dinasyddion Lleol i hwyluso'r fath beth?

Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Dywedodd yr Arweinydd mewn ymateb ei fod yn tybio bod Mr Lock yn cyfeirio yn ei gwestiwn at y cwestiwn a gyflwynodd i gyfarfod y Cyngor ar 29 Gorffennaf, 2019.

Cyfeiriodd y cwestiwn bryd hynny ar ran Beautiful Barry at y Cyngor yn gwneud gwelliannau nid yn unig drwy ffrydio cyfarfodydd y Cyngor Llawn a Chynllunio yn fyw ond hefyd pob un o'r Cyfarfodydd Craffu a Chyfarfodydd y Cabinet er budd ymgysylltu â'r cyhoedd.

Dywedodd yr Arweinydd y gallai gadarnhau bod y Cyngor ers mis Mai 2021 wedi ffrydio'r cyfarfodydd y cyfeiriodd Mr Lock atynt yn fyw ac y byddai'n parhau i ddarlledu'r rhan fwyaf o'i gyfarfodydd yn y dyfodol, ymhell cyn i Reoliadau newydd gael eu galluogi ym mis Mai 2022 o ganlyniad i gyflwyno Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

O ran Pwyllgorau Craffu, roedd aelodau o'r cyhoedd ac unigolion sy'n cynrychioli grwpiau eisoes yn gallu cyflwyno cais i gael siarad mewn Pwyllgor Craffu (ac yn wir y Pwyllgor Cynllunio ar geisiadau cynllunio, mae'r broses hon hefyd wedi bod ar waith ers i gyfarfodydd y Cyngor ailddechrau ar sail rithwir o ganlyniad i'r pandemig) a chyflwyno sylwadau ar faterion sy'n cael eu hystyried gan y Cyngor, a byddai'n gwahodd Beautiful Barry i ymgymryd â'r cyfle hwn a'r chyfleuster i ymgysylltu â'r

Cyngor ar faterion sydd o ddiddordeb i'r ddwy ochr. Ymgysylltodd y Cyngor â llawer o Fforymau fel rhan o'i strategaeth ymgysylltu â'r cyhoedd yn gyffredinol a byddai'n parhau i wneud hynny, fodd bynnag, roedd llawer o Fforymau'n bodoli ac felly, ni fyddai'n ymarferol cael yr holl grwpiau hyn yn eistedd ar y Pwyllgorau Craffu gynt. Dyna pam yr eglurodd yr Arweinydd mae'r trefniadau uchod ar waith.

Roedd y Pwyllgorau Craffu yn gallu ac yn parhau i allu gwahodd unigolion a chynrychiolwyr Fforymau a grwpiau i roi tystiolaeth ar faterion lle mae'r Pwyllgorau o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny.

Manteisiodd yr Arweinydd hefyd ar y cyfle i dynnu sylw at y ffaith bod Aelodau Etholedig y Cyngor yn eu rôl etholaeth leol etholedig hefyd yn gallu codi materion sy'n peri pryder ar ran eu cymunedau, a oedd yn llwybr arall a oedd yn agored i bawb.

Er gwybodaeth, roedd y Cyngor hefyd wedi gwneud newidiadau yn ddiweddar yn y ffordd y codai ymwybyddiaeth y cyhoedd o gyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol, gan gynnwys Pwyllgorau Craffu a materion a fyddai'n cael eu hystyried, manylion cyfarfodydd ac eitemau sydd ar y gweill a allai fod o ddiddordeb drwy ffrydiau Twitter cyfryngau cymdeithasol.

Diolchodd yr Arweinydd i gloi, i Grŵp Beautiful Barry am hyrwyddo cyfarfodydd y Cyngor ar ei dudalen Facebook.

(xiii) **Cwestiwn gan Mrs. C. Ockerby (Ar ran Beautiful Barry)**

Gyda thraffig i Ynys y Barri yn rheolaidd ar stop yn ystod yr haf, gan gyfyngu ar breswylwyr rhag cyrraedd eu cartrefi a mynd i siopa, a yw'n bosibl y gellid gweithredu cyfleuster Parcio a Theithio gan ddefnyddio'r Swyddfeydd Dinesig, Swyddfeydd y Dociau a meysydd parcio'r Neuadd Goffa i ymwelwyr dros y penwythnosau i helpu i leihau tagfeydd ledled y Barri, ac atal ymwelwyr rhag parcio'n anghyfreithlon wrth gyrraedd yr Ynys oherwydd bod y meysydd parcio'n llawn?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Cydnabuwyd ei bod yn anochel y byddai cynnydd yn swm y traffig ar hyd Ffordd y Mileniwm o ganlyniad i ddatblygiad parhaus y Glannau yn ogystal â'r gofyniad am fynediad i ymwelwyr i gyrchfan boblogaidd Ynys y Barri, yn ystod yr haf ac nid oedd hyn wedi bod yn wahanol i gyrchfannau glan môr mawr eraill ledled Cymru.

Dywedodd yr Aelod Cabinet yn ei ymateb fod y Cyngor eisoes wedi gweithio'n rhagweithiol gyda Chonsortium y Glannau i sicrhau bod ail fynediad i gyrchfan Ynys y Barri wedi'i adeiladu. Roedd y ffordd gyswllt newydd hon wedi bod o fudd sylweddol i drigolion a busnesau fel ei gilydd ac roedd dwy ffordd fynediad i Ynys y Barri wedi gwella mynediad yn sylweddol yn ystod tymor brig yr Haf ac wedi lleihau'r tagfeydd ar y ffyrdd a brofwyd yn flaenorol.

Manteisiodd yr Aelod Cabinet ar y cyfle i egluro bod astudiaethau traffig wedi'u cynnal ar gyfer Datblygiad y Glannau a'r ffordd gyswllt newydd yn ystod y cam

cynllunio cyn rhoi caniatâd cynllunio, ac yn ogystal ar y ffordd newydd sy'n gwasanaethu'r datblygiad ac ynys y Barri gyda'r capasiti traffig cynyddol a ddarparodd hyn. Sicrhaodd y Cyngor hefyd fod llwybrau teithio llesol o ansawdd da yn cael eu darparu fel rhan o ddatblygiad cyffredinol y Glannau i leihau'r ddibyniaeth ar geir preifat a byddai gwneud hynny hefyd yn lleihau tagfeydd traffig ac allyriadau CO2.

Dywedodd yr Aelod Cabinet y byddai'n annog trigolion ac ymwelwyr ledled y Fro i ystyried dulliau eraill o deithio yn hytrach na'r car preifat lle bynnag y bo'n ymarferol, yn enwedig ar gyfer teithiau byr, fodd bynnag, roedd yn cydnabod y byddai llawer yn dal i'w chael yn fwy cyfleus teithio mewn car, yn enwedig os ydynt yn teithio fel teulu.

Ffocws y Cyngor a Llywodraeth Cymru yn yr un modd oedd annog teithio llesol a defnyddio trafndiaeth gyhoeddus er mwyn lleihau'r ddibyniaeth ar y car preifat a mynd i'r afael â materion traffig a thagfeydd yn gyffredinol lle bynnag y bo hynny'n ymarferol. Roedd y darpariaethau ar gyfer teithio llesol ar y Glannau ac Ynys y Barri eisoes yn sylweddol ac ar waith yn cynnig dewisiadau amgen da yn lle ceir preifat, yn enwedig ar gyfer teithiau mwy lleol.

Awgrymodd yr Aelod Cabinet y byddai angen gwasanaeth bws Parcio a Theithio pwrpasol ar gyfer Parcio a Theithio sy'n gweithredu o'r Swyddfeydd Dinesig, Swyddfeydd y Dociau a'r Neuadd Goffa ar hyd coridor lle'r oedd gwasanaeth rheilffordd eisoes yn gwasanaethu Ynys y Barri.

Roedd y Cyngor eisoes wedi darparu arwyddion dros dro o Ffordd Gyswllt Dociau'r Barri i Swyddfa Dociau'r Cyngor yn y Barri yn rhoi gwybod am gyfleusterau parcio a theithio er mwyn annog ymwelwyr i barcio a defnyddio'r gwasanaeth trên yn hytrach na gyrru i Ynys y Barri ei hun a byddai'r trefniant hwn yn cael ei adfer i helpu i fynd i'r afael â'r pryderon a godwyd a rhoi opsiynau priodol i ymwelwyr.

Gyda thraffig i Ynys y Barri yn rheolaidd ar stop yn ystod yr haf, sy'n atal preswylwyr rhag cyrraedd eu cartrefi a mynd i siopa, ystyriwch a yw'n bosibl y gellid gweithredu cyfleuster Parcio a Theithio gan ddefnyddio'r Swyddfeydd Dinesig, Swyddfeydd y Dociau a meysydd parcio'r Neuadd Goffa i ymwelwyr dros y penwythnosau i helpu i leihau tagfeydd ledled y Barri, ac atal ymwelwyr rhag parcio'n anghyfreithlon wrth gyrraedd yr Ynys oherwydd bod y meysydd parcio'n llawn?

Roedd y meysydd parcio yn Swyddfa Dociau'r Cyngor yn parhau i fod ar gael i'r cyhoedd a oedd am ddefnyddio gorsaf y Dociau a byddai hefyd ar gael i unrhyw aelod o'r cyhoedd a oedd am barcio yno i gael mynediad i'r Ynys ar droed neu ar fws neu'r tren.

Dywedodd fod hyn yr un peth mewn perthynas â'r Swyddfeydd Dinesig yn ystod y nosweithiau a phenwythnosau, roedd yn credu.

(xiv) **Cwestiwn gan Mr. M. Lock**

Dangosodd arolwg diweddar ar Beautiful Barry fod 18.2% o dros 700 o ymatebion eisiau sinema neu ganolfan adloniant bowlio y marchnatwyd unwaith eu bod yn dod

i'r Glannau. Sut mae'r Cyngor wedi annog y syniad hwn gerbron unrhyw ddatblygwyr hamdden posibl?

Ymateb gan yr Aelod Cabinet dros Addysg ac Adfywio

Yn 2012 cyflwynodd cyn-berchnogion safle'r ffair ar Ynys y Barri gymeradwyaeth (yn amodol ar gytundeb cyfreithiol) ar gyfer ailddatblygu Parc Pleser Ynys y Barri gyda datblygiad defnydd cymysg a oedd yn cynnwys sinema a chanolfannau hamdden ond ni weithredodd y datblygwr y caniatâd hwnnw ac wedi hynny gwerthwyd y safle i'r gweithredwr angladdau presennol a daeth y caniatâd ben. Deallwyd nad oedd y datblygiad yn fasnachol hyfyw ar y pryd, ac na ellid dod o hyd i unrhyw weithredwr i fwrw ymlaen â'r cynigion.

Yn yr un modd, yn 2015, marchnatodd y Cyngor safle yn ardal arloesi'r glannau at ddibenion hamdden a chafodd gais gan weithredwr i ddatblygu sinema a bwytai danfon drwy'r ffenestr cysylltiedig eraill ar y safle. Fodd bynnag, methodd y datblygwr arfaethedig â denu gweithredwr ac yn y pen draw tynnodd ei gais am y safle yn ôl.

Fe'i gwnaed yn glir i'r Cyngor gan ddatblygwyr a gweithredwyr sinema fod y diwydiant Sinema yn cael trafferthion cyn y pandemig a bod hyfywedd masnachol datblygu sinemâu a hamdden yn ymylol ar y gorau. Roedd hefyd yn amlwg bod y Barri wedi dioddef rhywfaint o ystyried ei agosrwydd at Gaerdydd a'r cynnig sylweddol a oedd ar gael dim ond 15-20 munud i ffwrdd.

Fodd bynnag, ers y pandemig, bu'n rhaid i Sinemâu gau o 23 Mawrth, 2020 oherwydd y cyfnod clo cenedlaethol, roeddent wedi agor am gyfnod byr yn haf 2020 a chau eto tan yn ddiweddar. Roedd disgwyl i'r refeniw suddo yn y flwyddyn gyfredol. Roedd disgwyl i'r sinemâu gau yn ystod y cyfnodau clo, ynghyd â diffyg ffilmau newydd a hyder defnyddwyr isel, achosi cwmp yn nifer yr ymwelwyr â'r sinema. Dengys data gan Gymdeithas Sinema'r DU mai dim ond 5.5 miliwn oedd y derbyniadau dros y tri mis cyn mis Medi 2020, o'i gymharu â 45.2 miliwn y flwyddyn flaenorol, sy'n ostyngiad gan 87.8%.

Roedd pob un o'r prif grwpiau sinema mewn sefyllfa beryglus ar hyn o bryd, yn delio ag effeithiau'r pandemig a thwf y darparwr ffilmau digidol ac yn y cyd-destun hwn, nid oedd yn realistig disgwyl y gellid denu darparwr sinema yn y tymor byr i agor adeiladau newydd yn y dref.

Serch hynny, dywedodd yr Aelod Cabinet fod y Cyngor yn parhau i gefnogi'r posibilrwydd o ddod â defnyddiau hamdden i'r Barri. Roedd polisïau yn y Cynllun Datblygu Lleol yn parhau gefnogi datblygiadau hamdden ar yr ynys a'r glannau yn ogystal ag yng nghanol y dref a byddai'r Cyngor yn hapus i weithio gydag unrhyw weithredwr arfaethedig a oedd eisiau dod â sinema i'r Barri. Fodd bynnag, penderfyniadau buddsoddi masnachol a arweinid gan y farchnad oedd y rhain, dywedodd eu bod y tu hwnt i reolaeth y Cyngor i raddau helaeth.

(xv) Cwestiwn gan Mr. M. Lock

Roedd lithren y pwll yng nghanolfan Hamdden y Barri unwaith yn brif atyniad ac erbyn hyn mae golwg adfeiliedig arni. A allai'r Cyngor egluro pam nad yw wedi ei chynnal ac a fyddai modd ei hailagor?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros Hamdden, Celfyddydau a Diwylliant

Yn anffodus, er gwaethaf gwaith cynnal a chadw rheolaidd ar y pryd, datblygodd y lithren ddŵr yng Nghanolfan Hamdden y Barri nifer o ddiffygion oherwydd ei hoedran, ac fe'i hystyriwyd y tu hwnt i'w hatgyweirio ac roedd i fod i gael ei symud yn ystod yr wythnosau nesaf. Prynwyd teganau gwynt mawr ar ffurf cwrs rhwystrau, yn lle'r lithren ddŵr ac roedd yn boblogaidd iawn gydag ymwelwyr â Chanolfan Hamdden y Barri. Yn anffodus, ar hyn o bryd nid oedd y pwll yn cael ei ddefnyddio oherwydd y materion gweithredol ehangach sy'n gysylltiedig â chydymffurfio â'r rheoliadau COVID presennol, yn enwedig y gofynion glanhau ychwanegol sy'n angenrheidiol drwy'r Ganolfan. Fodd bynnag, byddai'r 'sesiynau teganau gwynt' hyn yn cael eu hadfer cyn gynted â phosibl.

Roedd yr ardal lle'r oedd y lithren ddŵr yn cael ei hailwampio fel ardal ffitrwydd awyr agored newydd i helpu i wella effeithiau Covid-19 ar y Ganolfan Hamdden. Y gobaith oedd y byddai'r ardal hon gyda'i diben newydd yn denu cwsmeriaid newydd yn ogystal â darparu parth ffitrwydd newydd deniadol i gwsmeriaid presennol.

(xvi) Cwestiwn gan Mr. M. Lock

Mis Mehefin oedd mis Pride a chyda'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau cynnull pobl yn methu â digwydd oherwydd Covid, a yw'r Fro wedi cefnogi hyn mewn ffyrdd cynhyrchiol eraill megis digwyddiadau ar-lein?

Ateb gan yr Arweinydd Gweithredol a'r Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau

Roedd y Cyngor wedi ymrwmo i'r agenda cydraddoldeb ac roedd mis Pride bob amser yn gyfle a gymerai'r Cyngor i ddathlu'r gymuned LHDT.

Oherwydd nad oedd modd cynnal digwyddiadau wyneb yn wyneb yn ystod y flwyddyn roedd y Cyngor wedi ymgymryd ag amrywiaeth o weithgareddau eraill, gan gynnwys:

- Chwifio baner yr enfys yn y Swyddfeydd Dinesig yn ystod y mis;
- Defnyddiwyd y cyfryngau cymdeithasol i gefnogi mis Pride, gan gynnwys neges [Twitter](#) 'Mis Pride Hapus,' defnyddio fersiwn logo enfys y Cyngor ar Twitter a Facebook ac ail-drydar negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol gan Pride Cymru.

Drwy gydol y mis, roedd cynlluniau goleuo baner yr enfys yn y cysgodfannau yn Ynys y Barri a'r twnnel yn Hood Road fel y cynllun diofyn ac ar rai dyddiau newidiai hyn i nodi achlysuron eraill.

Roedd y Cyngor yn dathlu amrywiaeth ei weithlu ac roedd mis Pride yn gyfle i wneud hyn ymhellach. Cyfeiriodd y Rheolwr Gyfarwyddwr at Pride yn ei neges wythnosol ar ddechrau'r mis, er enghraifft ac chyhoeddodd rhwydwaith staff LHDT y Cyngor, GLAM, gnllaw ar ddathlu Pride 2021. Anfonwyd e-bost at holl aelodau GLAM cyn ei gyhoeddi hefyd fel eitem newyddion ar y fewnrwyd ac unwaith eto fe'i hyrwyddwyd gan y Rheolwr Gyfarwyddwr.

Dywedodd yr Arweinydd ei fod yn falch hefyd o weld Caffi Big Fresh y Cyngor yn dathlu mis Pride wrth werthu cacen enfys ym Mhafiliwn Pier Penarth (ac roedd wedi clywed ei bod yn flasus hefyd).

Roedd y Cyngor wedi ymrwymo i amrywiaeth yn ei gymunedau, cynrychioli'r gymuned a wasanaethai ac er gwaethaf y cyfyngiadau, cofleidiodd fis Pride eto yn 2021. Roedd yr Arweinydd yn gobeithio dychwelyd i ddigwyddiadau wyneb yn wyneb ar faterion fel Pride, diwrnod dathlu Windrush ac eraill yn y dyfodol agos.

(xvii) **Cwestiwn gan Mr. S. Burnell**

Faint o gwynion a dderbyniwyd gan y Cyngor ynglŷn â'r diffyg lle oherwydd byrddau siâp A a byrddau bwyd a chadeiriau?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Roedd cadw troedffyrdd mor glir â phosibl i gerddwyr a'r rhai a oedd yn rhannol ddall yn hanfodol ar gyfer teithio llesol a diogelwch. Drwy wneud hyn, dywedodd yr Aelod Cabinet fod Bro Morgannwg yn lle mwy deniadol a bywiog i ymweld ag ef. Roedd y troedffyrdd yn ased cyhoeddus ac felly dylid eu rheoli er budd ehangach y cyhoedd nid yn unig i'r ychydig sy'n dymuno gosod eitemau arno er eu budd.

Nid oedd gan yr Aelod Cabinet union nifer y cwynion a ddaeth i law ac nid oedd amserlen na lleoliad penodol wedi'u darparu yn y cwestiwn. Fodd bynnag, gallai'r Aelod Cabinet ddweud bod y Cyngor yn cael cwynion yn rheolaidd am rwystrau ar y briffordd, megis potiau planhigion, byrddau hysbysebu ac offer a ddefnyddir gan fusnesau. Er enghraifft, yn ystod y 15 mis diwethaf yn Esplanâd Penarth yn unig roedd wedi derbyn o leiaf un mater yr wythnos, yn yr un modd gan drigolion y blociau fflatiau yn y lleoliad hwn, a gysylltai â'r Cyngor yn rheolaidd ynghylch rhwystrau ar y briffordd a'r droedffordd.

Yn 2020 yn Ynys y Barri, ehangodd un busnes i gynnwys rhan sylweddol o'r droedffordd, fel bod yn rhaid i gerddwyr gamu ar y ffordd i fynd heibio. Hefyd, gallai yfed alcohol ar draws rhannau o'r droedffordd nas rheolir fod yn fygythiol, yn enwedig i deuluoedd â phlant ifanc a derbyniwyd 10 cwyn unigol ynglŷn â hyn.

Roedd nifer y cwynion ac amser y swyddogion a roddid i ddelio â'r materion hyn yn sylweddol ac roedd rheoli eitemau ar y briffordd yn briodol yn gwella diogelwch y briffordd, yn creu manau mwy croesawgar a hefyd yn lleihau'r risg o gwynion. Roedd codi tâl am y ddarpariaeth hon gan y busnesau hefyd yn osgoi i drethdalwyr y Cyngor dalu costau o'r fath.

(xviii) Cwestiwn gan Miss. A. Greenfield

Sut mae'r Cyngor wedi ystyried effaith amgylcheddol gofyn i fusnesau ddisodli arwyddion palmant gyda dyluniadau cymeradwy? A ellid cyflwyno'r newidiadau hyn yn raddol i fod yn berthnasol i arwyddion newydd yn unig, er mwyn caniatáu i eitemau sy'n dal yn ddefnyddiol gael eu defnyddio nes bod angen eu hadnewyddu? Mae hyn yn lleihau'r effaith amgylcheddol.

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Anogai'r Cyngor ddarparu cyfarpar ar yr asedau priffyrdd cyhoeddus, achos pe bai'r dyluniad yn briodol a'r lleoliad yn gywir, gallai wneud cyfraniad cadarnhaol drwy ychwanegu bywiogrwydd, lliw, bywyd a diddordeb at y strydlyn; Gallai eitemau fel hyn hefyd helpu i ddefnyddio mannau cyhoeddus orau bosibl, helpu'r economi leol ac ychwanegu at y cyfleusterau a gaiff eu cynnig i bobl sy'n ymweld â Bro Morgannwg, neu'n byw neu'n gweithio yno.

Roedd y Cyngor wedi ystyried effaith amgylcheddol y mathau o fyrddau hysbysebu a ganiateir ac roedd yn bwysig eu bod yn cael eu gweinyddu a'u rheoli'n briodol i sicrhau eu bod yn bodloni'r safonau uchel a ddisgwyliid ym Mro Morgannwg i gadw'r ardaloedd yn ddiogel, yn ddeniadol ac yn fywiog.

Roedd llawer o fyrddau hysbysebu a ddefnyddid gan fusnesau yn rhy fawr ac, mewn rhai achosion, wedi'u gwneud gartref, felly nid oeddent digon o bwysau arnynt i atal y gwynt rhag cael eu chwythu i'r llawr, sy'n arwain at y potensial i achosi anaf neu niwed i ymwelwyr â'r lleoliad. Felly, roedd yn bwysig bod busnesau'n defnyddio'r math a'r meintiau hysbysebu byrddau a ganiateir fel nad oeddent yn rhwystro'r droedffordd yn annerbyniol nac yn creu perygl i gerddwyr, yn enwedig i'r defnyddwyr dall, rhannol ddall a defnyddwyr eraill sydd efallai yn llai abl.

Mewn trafodaethau'n ddiweddar gyda masnachwyr, roedd rhai busnesau wedi codi'r mater bod eu harwyddion o'r math nas caniateir megis yr arwyddion plât sy'n siglo yn y gwynt, felly cytunwyd y gellid sicrhau'r plât arwyddion gyda chysylltiadau cebl / sip wrth y ffrâm i atal y plât arwydd rhag siglo gan fod gweddill y bwrdd hysbysebu presennol yn bodloni'r math a ganiateir. Roedd rhai o'r busnesau a oedd wedi codi'r mater wedi bod yn ddiolchgar iawn am argymhelliad ein swyddogion ac os oedd angen cyngor ar fasnachwyr i gydymffurfio â swyddogion Polisi newydd y Cyngor, byddai'n fwy na pharod i'w gorfodi.

(xix) Cwestiwn gan Mr. R. Watkins

Pam mae Cyngor Bro Morgannwg yn credu mai dyma'r amser cywir i gyflwyno taliadau ar gyfer byrddau, cadeiriau a byrddau hysbysebu ar fusnesau sydd eisoes yn cael trafferthion tra mae Llywodraeth Cymru yn dal i gefnogi'r busnesau hyn drwy ryddhad rhag ardrethi busnes a grantiau ychwanegol?

Ateb gan yr Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Cymdogaeth a Thrafnidiaeth

Roedd y Cyngor yn cefnogi defnyddio offer busnes preifat ar y briffordd fabwysiedig ac felly roedd wedi cynnig trwyddedau 12 mis am ddim i lawer o fusnesau a gysylltodd â'r Cyngor i'w helpu drwy'r pandemig. Parhaodd y Cyngor i gefnogi'r busnesau hyn, fodd bynnag, pe bai busnes ym Mro Morgannwg yn dewis ehangu eu busnes y tu allan i'r ased fabwysiedig, yna roedd angen gweinyddu hyn er mwyn sicrhau rheolaeth, cydymffurfiaeth ac nad oedd yn cael effaith negyddol ar ymwelwyr a thrigolion sy'n defnyddio'r cyfleusterau niferus sydd gan y Fro i'w cynnig yn ei threfi a'i hardaloedd arfordirol. Dylid nodi bod cost i hyn, dywedodd na ddylai Trethdalwyr domestig Cyngor y Fro ei dalu.

Roedd y taliadau a gyflwynwyd yn rhesymol iawn o'u cymharu â Chynghorau eraill yng Nghymru, roedd Cynghorau Caerdydd, Pen-y-bont ar Ogwr a Casnewydd i gyd yn codi taliadau tebyg. Roedd rhai o'r Cynghorau hyn, er y bu cyfnodau am ddim yn ystod anterth y pandemig, yn codi tâl ar hyn o bryd.

Yn wahanol i lawer o Gynghorau eraill, cynigiodd y Fro opsiwn debyd uniongyrchol i fusnesau i gydnabod eu problemau posibl o ran llif arian.